

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ysgolion

Canllawiau

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2019
Yn disodli dogfen ganllawiau: Cylchlythyr 019/2010

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ysgolion

Cynulleidfa

Penaethiaid, cyrff llywodraethu, cydlynwyr addysg bersonol a chymdeithasol ac athrawon addysg cydberthynas a rhywioldeb ym mhob ysgol a gynhelir. Byrddau iechyd, nyrsys ysgol, nyrsys plant sy'n derbyn gofal (PDG), nyrsys iechyd rhywiol a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill mewn ysgolion. Cydlynwyr addysg PDG sy'n gyfrifol am iechyd ac addysg y plant hynny. Cydlynwyr Cynllun Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, awdurdodau lleol a chydlynwyr/darparwyr rhaglenni hyfforddi addysg cydberthynas a rhywioldeb

Trosolwg

Canllawiau ynghylch sut dylai ysgolion ddatblygu eu polisi addysg rhyw, cynllunio a chyflwyno eu darpariaeth addysg cydberthynas a rhywioldeb a gweithio mewn partneriaeth ag eraill.

Camau i'w cymryd

Mae rhaid i ysgolion ystyried y canllawiau hyn wrth weithredu eu polisi addysg rhyw a'u darpariaeth addysg cydberthynas a rhywioldeb.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm
Cangen y Celfyddydau, y Dyniaethau a Llesiant
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF103NQ
e-bost: RSEGuidance@llyw.cymru



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn <https://beta.gov.wales/draft-guidance-relationships-and-sexuality-education>

Dogfennau cysylltiedig

Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru; Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru; Cadw Dysgwyr yn Ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a

pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf
Addysg 2002; Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Pobl:
Cyfrolau 1-7 a gyhoeddwyd o dan Ddeddf
Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
2014; Gwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion yng
Nghymru: Strategaeth Genedlaethol (Llywodraeth
Cynulliad Cymru, 2008)

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG 35128

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Beth yw diben y canllawiau hyn?	1
Beth yw Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb?	1
Dull gweithredu ysgol gyfan	3
Dyluniad y cwricwlwm	4
Gweithio gyda darparwyr allanol	11
Dolenni i bolisiau	13
Diogelu	13
Bwlio	14
Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol	14
Polisiau gwisg ysgol	15
Cymorth allanol	15
Arwyddbostio	15
Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru	15
Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan	16
Cwnsela i blant a phobl ifanc a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAHMS)	16
Atodiad A: Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer addysg rhyw	18
Atodiad B – Gwybodaeth gyfreithiol ynglŷn ag oedran cydsyniad rhywiol	20
Atodiad C – Arwyddbostio – Dolenni i sefydliadau cymorth allanol	21
Atodiad D - astudiaethiau achos	24

Cyflwyniad

Beth yw diben y canllawiau hyn?

Diben y canllawiau hyn yw rhoi cymorth ymarferol i athrawon a staff ysgol i adeiladu darpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel rhan o "dull gweithredu ysgol gyfan". Mae'r cyngor yn y ddogfen hon yn cael ei llywio gan y dystiolaeth a gasglwyd gan y [Panel Arbenigol Rhyw a Chydberthnasau](#) ac Estyn yn ei [adolygiad thematig o addysg cydberthnasau iach](#).

Beth yw Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb?

Mae bodau dynol yn fodau cymdeithasol ac mae cydberthnasau iach yn elfen hanfodol o sefydlu a chynnal iechyd corfforol, meddwl ac emosiynol da. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn archwilio'r ffyrdd rhyng-gysylltiedig y mae amrediad eang ac amrywiol o ddylanwadau cymdeithasol, diwylliannol, technegol a biolegol yn effeithio ar y gallu i ffurfio a chynnal cydberthnasau cadarnhaol. Mae deall sut mae cydberthnasau yn cael eu ffurfio, yn datblygu ac yn cael eu cynnal yn ein galluogi i ddatblygu'r sgiliau a'r agweddau sy'n ein caniatáu i greu ein cydberthnasau iach ein hunain. Mae'n cefnogi pobl ifanc i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i lywio yn effeithiol y dylanwadau hyn sy'n newid yn gyflym a sefydlu cydberthnasau sy'n llawn parch ac yn foddhaus drwy gydol eu bywydau. Gallai'r rhain gynnwys cydberthnasau teuluol, cyfeillgarwch, cydberthnasau proffesiynol a chydberthnasau rhywiol. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn elfen bwysig o greu dull gweithredu ysgol gyfan i gefnogi iechyd a llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol cyffredinol.

Mae'r newid o ran enw i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn adlewyrchu safonau Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer addysg rhywioldeb. Mae'r diffiniad hwn yn ceisio annog ysgolion i fabwysiadu dull cydgysylltiedig i addysg yn ymwneud â chydberthnasau a'r amrediad ehangach o destunau a gynhwysir o dan rhywioldeb, gan greu cysylltiadau effeithiol rhwng meysydd dysgu fel parch a hawliau, cydsyniad, cydraddoldeb rhywedd, y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, hunaniaethau, ac iechyd rhywiol (ar y cyfnod priodol).

Y goblygiadau cyfreithiol yn ymwneud ag Addysg Rhyw (y cyfeirir ati'n Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y canllawiau hyn)

Er bod y canllawiau hyn yn annog ysgolion i feddwl yn ehangach am y ffordd maent yn integreiddio'r maes astudio hwn i'r cwricwlwm, nid yw'n newid ei seiliau statudol. Mewn deddfwriaeth, mae'n cyfeirio at gynnwys addysg rhyw yn y cwricwlwm ysgol.

Ar gyfer **ysgolion cynradd**, nid yw addysg rhyw yn orfodol, ond gall ysgolion ddewis darparu addysg rhyw sy'n briodol i ddatblygiad y plant os dymunant. Mae'n rhaid i ysgolion cynradd addysgu'r cwricwlwm cenedlaethol o hyd yng Nghymru, ac mewn pynciau fel gwyddoniaeth, mae'n bosibl y bydd materion yn cael eu cynnwys a allai lunio rhan o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Pan fydd hynny'n digwydd, mae'n rhaid i ysgolion cynradd barhau i addysgu'r agweddau hynny o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Mae'n rhaid i **ysgolion uwchradd** ac unedau atgyfeirio disgyblion gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg rhyw ar gyfer yr holl ddisgyblion cofrestredig.

Mae'n rhaid i **ysgolion arbennig** hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg rhyw ar gyfer yr holl ddisgyblion cofrestredig sy'n derbyn addysg uwchradd yn yr ysgol.

Bydd yr ysgolion yn parhau i benderfynu ar yr amser a roddir a'r strategaethau dysgu maent yn eu darparu. Serch hynny, ni ddylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gael ei chyflwyno mewn ffordd ynysig. Dylid ei chynllunio a'i hintegreiddio fel rhan o'r cwricwlwm cyfan, gyda chydlyn effeithiol i sicrhau dilyniant a chynnydd mewn dysgu ar draws y cyfnodau allweddol.

Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu pob ysgol wneud datganiad ysgrifenedig a'i ddiweddarau o ran ei bolisi wrth ddarparu addysg rhyw, a dylid ei adolygu bob dwy flynedd yn ddelfrydol. Mae'n rhaid i'r polisi hwn hefyd gynnwys datganiad ynglŷn â hawliau rhieni a gofalwyr i dynnu eu plant o addysg rhyw.

Mae rhestr lawn o'r ddeddfwriaeth ynglŷn ag addysg rhyw yn y cwricwlwm wedi'i chynnwys yn Atodiad A.

Fel rhan o addysg rhyw a chydberthynas, dylai disgyblion gael eu haddysgu am natur a phwysigrwydd bod yn briod ar gyfer bywyd teuluol a magu plant. Ond, rydym yn cydnabod bod modd cael perthynas gryf, lle bo'r ddau bartner yn cefnogi ei gilydd, y tu allan i briodas. Felly, dylai disgyblion ddysgu am arwyddocâd priodas a chydberthynas sefydlog o ran eu bod yn gosod sylfaen gadarn yn y gymuned a'r gymdeithas. Dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw plant yn cael eu difrio ar sail eu hamgylchiadau gartref.

Dylai addysg rhyw a chydberthynas gyfrannu at hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion yn yr ysgol a'r gymdeithas, gan baratoi disgyblion am gyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn.

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb Ôl-16

Bwriedir i'r cyngor yn y canllawiau hyn gefnogi lleoliadau addysg i integreiddio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ddull gweithredu ysgol gyfan i adeiladu a chynnal iechyd a lles corfforol, meddyliol ac emosiynol da. Dylai'r ysgolion a cholegau chweched dosbarth ystyried y canllawiau hyn wrth iddynt siapio darpariaeth sy'n cynnal eu pobl ifanc yn effeithiol.

Oedran cydsyniad ar gyfer gweithgarwch rhywiol

Er ein bod yn annog ysgolion i ddelio â materion ynglŷn â rhyw ac iechyd rhyw mewn dull ffeithiol, anfeirniadol sy'n briodol i oedran, dylid cofio mai'r oedran cydsyniad ar gyfer gweithgarwch rhywiol yn y DU yw 16 mlwydd oed. Mae'r oedran cydsyniad yr un peth beth bynnag yw rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn a pha un a yw'r gweithgarwch rhywiol rhwng pobl o'r un rhywedd neu rywedd gwahanol.

Mae crynodeb llawn o'r gyfraith ar oedran cydsyniad i weithgarwch rhywiol wedi'i gynnwys yn **Atodiad B**.

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Mae cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ofyniad cyfreithiol i ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae'n gwneud synnwyr addysgol da i gydymffurfio â hi. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn helpu ysgolion i ganolbwyntio ar feysydd pryder allweddol a sut i wella deilliannau ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae'r ddyletswydd yn cynnwys nodi ble y gallwn gymryd camau gweithredu i hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu camwahaniaethu a meithrin cydberthnasau da, a lle y bo'n bosibl, lliniaru effeithiau negyddol a allai ddeillio o benderfyniadau.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Mae Llywodraeth Cymru yn hollol ymrwymedig i [Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn \(CCUHP\)](#). Mae [Plant a Phobl Ifanc: Hawliau Gweithredu](#) (2004) yn amlinellu saith nod creiddiol Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r nodau creiddiol yn disgrifio hawl plant a phobl ifanc i gael mynediad at wasanaethau addysg ac iechyd ac maent yn mynd i'r afael â'u hawl i gyfranogi yn y penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw; mae hyn yn cynnwys cael y wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniadau. Mae'r canllawiau hyn wedi'u dylunio i gefnogi ysgolion i gyrraedd y nodau creiddiol hynny.

Dull gweithredu ysgol gyfan

Roedd tystiolaeth a gasglwyd gan y Panel Arbenigol Rhyw a Chydberthnasau yn nodi "dull gweithredu ysgol gyfan" fel yr elfen unigol bwysicaf ar gyfer sicrhau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb effeithiol ac o ansawdd uchel. Gwnaeth gwaith ymchwil y panel ddangos bod dull gweithredu ysgol gyfan wedi'i gynllunio'n dda ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cefnogi newidiadau cadarnhaol i agweddau ac ymddygiad.

Mae'r "dull gweithredu ysgol gyfan" yn creu cyswllt effeithiol rhwng holl elfennau cwricwlwm, polisi, staff a chymuned lleoliad addysg. Mae'n annog cyfathrebu ac atgyfnerthu ethos cadarnhaol cyson ac mae'n darparu cymorth cyfannol o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr. Dylai hyn gynnwys sut y gall Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gefnogi nodau ehangach yn ymwneud â chymorth o ran llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol. Er enghraifft, efallai gallai ysgol fod eisiau ystyried sut y gall amgylchedd ysgol cefnogol roi cyfleoedd i atgyfnerthu negeseuon am gydberthnasau sy'n llawn parch neu annog dysgwyr i geisio help a chymorth.

Mae dysgu proffesiynol yn elfen allweddol o sefydlu addysg cydberthynas a rhywioldeb gynhwysfawr drwy ddull gweithredu ysgol gyfan. Dylai ysgolion roi mynediad i'w hathrawon i ddysgu a all eu cefnogi i ddatblygu hyder a gwybodaeth mewn perthynas â phynciau addysg cydberthynas a rhywioldeb.

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol

Dylai ysgolion sy'n darparu addysg ar gyfer dysgwyr gydag anghenion dysgu cymedrol a difrifol, dwys a lluosog ystyried sut fyddai orau i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr nad yw eu dealltwriaeth o faterion iechyd a llesiant yn cyfateb o bosibl i'w datblygiad corfforol.

Dylai'r holl staff, gan gynnwys staff cynorthwyol, ffisiotherapyddion, nyrsys a gofalwyr, fod yn ymwybodol o bolisi addysg rhyw'r ysgol wrth weithio gyda dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn rhan a gynlluniwyd ac a integreiddiwyd o'r cwricwlwm, wedi'i chydlynu effeithiol i sicrhau dilyniant a chynnydd mewn dysgu ar draws pob cyfnod allweddol. Dylai ysgolion arbennig benderfynu ar union gynnwys y rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r strategaethau ar gyfer dysgu sy'n cael eu mabwysiadu er mwyn diwallu anghenion gwahanol y dysgwyr. Er enghraifft, ar gyfer dysgwyr sy'n defnyddio dulliau cyfathrebu amgen, megis iaith arwyddion, symbolau a/neu switsys a chymorthyddion cyfathrebu, bydd angen i ysgolion sicrhau bod yr holl staff yn gyfarwydd â themau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb allweddol mewn Makaton, Braille neu iaith Arwyddion Prydain, neu ba bynnag dulliau cyfathrebu amgen sy'n cael eu defnyddio.

Dyluniad y cwricwlwm

Mae'r cwricwlwm ysgol ond yn un o'r offerynnau y gall ysgolion ddefnyddio i ddatblygu dull gweithredu ysgol gyfan i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.


Dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm roi cyfle i ddysgwyr archwilio amrediad eang o ddylanwadau cymdeithasol, diwylliannol, technegol a biolegol sy'n gallu effeithio ar eu bywydau a'u gallu i ffurfio a chynnal cydberthnasau cadarnhaol. Wrth ddylunio cwricwlwm ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mae ysgolion yn cael eu hannog i ystyried defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau a chydraddoldeb rhywedd, ac sy'n briodol o ran datblygiad, er mwyn datblygu darpariaeth effeithiol:

Efallai y bydd ysgolion am ddefnyddio canllawiau technegol UNESCO ar gyfer eu haddysg ar rhywioldeb i'w helpu i gynllunio eu cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae'r canllawiau technegol yn amlinellu'r dilyniant i ddysgwyr 5-18 oed ar draws wyth maes thematig:

- Cydberthnasau;
- Gwerthoedd, hawliau, diwylliant a rhywioldeb;
- Deall rhywedd;
- Trais a diogelwch;
- Sgiliau iechyd a llesiant;
- Y corff dynol a'i ddatblygiad;
- Rhywioldeb ac ymddygiad rhywiol;
- Iechyd rhywiol ac atgenhedlol.

Yn Atodiad D ceir astudiaeth achos sy'n dangos sut y gall canllawiau technegol UNESCO fod o gymorth wrth gynllunio'r cwricwlwm a helpu ysgolion i lunio eu cwricwlwm ochr yn ochr â dysgwyr.

Wrth ddylunio cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, anogir ysgolion i ystyried dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau a chydraddoldeb rhwng y rhywiau, ac sy'n briodol i ddatblygiad y dysgwyr, er mwyn datblygu darpariaeth effeithiol:



ADDYSG CYDBERTHYNAS A RHYWIOLDEB SY'N BRIODOL I DDATBLYGIAD, AC YN SEILIEDIG AR HAWLIAU A CHYDRADDOLDEB RHYWEDD

Priodol i Ddatblygiad y Dysgwyr

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n briodol i ddatblygiad, ac yn seiliedig ar hawliau a chydraddoldeb rhywedd, yn annog dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o hawliau dynol yn gysylltiedig â rhywedd, cydberthnasau, rhywioldeb a rhyw a sut maent yn cyfrannu at iechyd a llesiant a diogelwch eraill. Mae ymchwil ryngwladol a gasglwyd gan y Panel Arbenigol yn dangos mai'r rhaglenni mwyaf effeithiol yw'r rheini sydd â dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau a rhywedd yn greiddiol iddynt.

Dylai gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb bob amser fod yn briodol i oedran a cham datblygu'r dysgwr. Dylid gwneud oedran y dysgwr yn un o'r meini prawf a ddefnyddir gan ymarferwyr wrth benderfynu ynghylch pa mor briodol yw gwers; fodd bynnag, bydd angen ystyried ffactorau eraill wrth gynllunio darpariaeth, ee datblygiad corfforol, meddyliol ac emosiynol dysgwyr, a'r angen i'w diogelu rhag gwybodaeth nad ydynt yn ddigon aeddfed i'w phrosesu. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cadw'n ddiogel rhag gwybodaeth nad ydynt yn ddigon aeddfed ar ei chyfer. Fodd bynnag, ni ddylai hyn fod yn rheswm dros beidio â darparu gwybodaeth hanfodol i blant a phobl ifanc sydd ei hangen arnynt wrth iddynt ddatblygu'n gorfforol, yn feddyliol ac yn emosiynol; mae angen i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n briodol i ddatblygiad drafod pynciau sy'n hanfodol i ddatblygiad dysgwr. Er enghraifft, dylid ymdrin â materion a allai effeithio ar ddysgwyr iau, fel glaslencyndod a misglwyf, yn sensitif cyn i newidiadau ffisiolegol ddechrau. Dylai ysgolion ystyried hefyd sut i ddarparu cymorth priodol drwy ddull gweithredu ysgol gyfan, ee sicrhau bod mynediad gan ddysgwyr i nwyddau hylendid merched.

Mae astudiaeth achos yn manylu ar sut y mae Ysgol Gynradd Bracla ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi gweithio gyda rhieni i sefydlu dull gweithredu ysgol gyfan i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar gyfer dysgwyr iau wedi'i chynnwys yn **Atodiad D**.

Hawliau

Anogir ysgolion i gysylltu dysgu ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn effeithiol, pan fo hynny'n briodol, â Chonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, y Ddyletswydd Gydraddoldeb (2010), Deddf Trais yn erbyn Merched a Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2015) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015).

Yn Atodiad D, ceir astudiaeth achos ar raglen UNICEF, Ysgolion sy'n Parchu Hawliau.

Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn diffinio cydraddoldeb rhwng y rhywiau fel rhywbeth mwy na chyfle cyfartal mewn ffordd ffurfiol, rhywbeth sy'n cyfeirio at anghenion, dewisiadau a buddiannau gwahanol menywod a dynion, sy'n golygu weithiau bod angen eu trin mewn ffordd wahanol er mwyn sicrhau cyfle cyfartal. Dylai ysgolion ystyried sut y gallant sicrhau mynediad cyfartal i ddysgwyr i brofiadau a gweithgareddau addysgol, yn ystod y diwrnod ysgol ac fel rhan o arlwy ar-ôl-ysgol. Er enghraifft, dylai ysgolion roi cyfle cyfartal i fechgyn a

merched i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, yn hytrach na dim ond cynnig rhai dewisiadau i un grŵp (ee os cynigir pêl-droed i fechgyn, dylid ei gynnig i ferched hefyd).

Mae darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n seiliedig ar hawliau a chydaddoldeb rhwng y rhywiau, ac sy'n briodol i ddatblygiad y dysgwyr, wedi'i seilio ar y 6 egwyddor ganlynol:

CYNHWYSOL

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gynhwysol yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth a gwahaniaeth ar draws amrediad o hunaniaethau sy'n gysylltiedig â chydberthnasau, rhyw, rhywedd a rhywioldeb a bod yr amrywiaeth honno yn ffynhonnell cryfder ac yn greiddiol i gymdeithas gydlynol, deg a chyfiawn.

Dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o ansawdd uchel ymdrechu i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr, gan sicrhau drwy ddull gweithredu ysgol gyfan y gallant gael mynediad at gymorth priodol oddi wrth yr ysgol neu wasanaethau allanol.

Lle bynnag y bo'n bosib, dylai ymarferwyr addysg fod yn ymwybodol o amgylchiadau personol dysgwyr unigol a bod yn sensitif tuag atynt. Dylai hyn eu galluogi i gyflenwi cynnwys wedi'i deilwra'n addas i gefndir diwylliannol y dysgwyr yn ogystal â'r rheini sydd mewn grwpiau agored i niwed neu dan anfantais, fel y rheini a allai fod yn byw mewn tlodi, plant sy'n derbyn gofal, gofalwyr ifanc, neu'r rheini sy'n rhan o gymuned Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Mae'n bwysig fod ymarferwyr a dysgwyr yn cydnabod amrywiaeth cydberthnasau a rhywioldeb a dangos parch at eraill beth bynnag yw eu mynegiant rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol neu hoffter o ran cydberthnasau. Mae hefyd yn bwysig, yn ychwanegol at feithrin agwedd gadarnhaol a llawn parch at amrywiaeth, fod ysgolion hefyd yn sicrhau bod gan ddysgwyr a allai uniaethu fel lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a *queer* (LHDTQ+) fynediad at ddarpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'i bod yn berthnasol, yn ffeithiol ac yn gefnogol.

Dylai ysgolion hefyd sicrhau bod dysgu yn berthnasol i'r plant neu bobl ifanc hynny sydd ag anabledd. Dylid rhoi cyfleoedd i'r holl ddysgwyr gael mynediad at wybodaeth briodol a datblygu gwybodaeth ynglŷn â ble a sut i ddod o hyd i gyngor a chymorth.

Gellir dod o hyd i astudiaeth achos yn manylu ar sut mae Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau i wella dysgu ynglŷn â chydaddoldeb rhywedd a materion LHDT yn **Atodiad D**.

CYFANNOL

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gyfannol yn archwilio'r ffyrdd rhyng-gysylltiedig y mae rhyw, rhywedd, rhywioldeb a chydberthnasau yn siapio bywydau pobl ar draws y byd. Mae'r cwricwlwm yn darparu amrediad o gyd-destunau cyfoethog ar gyfer dysgu y dylai ysgolion ystyried eu defnyddio er mwyn ymgysylltu â thestunau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Er bod materion ynglŷn ag addysg rhyw yn draddodiadol wedi canolbwyntio ar destunau biolegol fel atgynhyrchu, mae ysgolion yn cael eu hannog i ddylunio darpariaeth

sy'n tynnu oddi ar feysydd eraill y cwricwlwm er mwyn darparu cyfleoedd i gyfoethogi ac ymestyn y dysgu o ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Dylai ysgolion hefyd roi cyfle i ddysgwyr ailymweld â chysyniadau allweddol drwy gydol eu haddysg ac adeiladu arnynt wrth iddynt dyfu o ran oedran a dealltwriaeth.

Mae ysgolion yn gallu tynnu oddi ar y fframwaith anstatudol ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol, sy'n gallu darparu sail ar gyfer cynllunio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae gan y fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol bum thema ac ar gyfer pob thema mae'n manylu ar yr agweddau a gwerthoedd a gwybodaeth a dealltwriaeth y dylid eu defnyddio fel cyd-destunau dysgu er mwyn datblygu sgiliau sy'n gysylltiedig ag Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Er mai'r thema "Iechyd a lles emosiynol" sydd fwyaf perthnasol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, dylai ysgolion ystyried sut y gall agweddau eraill Addysg Bersonol a Chymdeithasol, megis parch at eraill o fewn y thema "Dinasyddiaeth weithgar", gefnogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth fwy cyfannol o gydberthnasau cadarnhaol. Dylai ysgolion hefyd archwilio cyfleoedd i gysylltu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a phynciau cwricwlwm eraill, fel er enghraifft:

- Defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i ategu cydberthnasau lle mae'r naill yn parchu'r llall
- Cydraddoldeb rhywedd a'r dirwedd newidiol o ran hawliau ac eiriolaeth mewn Hanes
- Nodweddion cydberthnasau iach ac afiach mewn Llenyddiaeth a'r Celfyddydau
- Agweddau at y mislif o amgylch y byd mewn Daearyddiaeth

YN BERTHNASOL, YN DDENIADOL AC WEDI'I CHYD-GYNHYRCHU

Dull gweithredu sy'n ymgysylltu â dysgwyr yn effeithiol ac yn cydnabod ac yn ymateb i wybodaeth a phrofiadau plant a phobl ifanc. Gall cwricwlwm perthnasol ac effeithiol olygu tynnu oddi ar faterion cyfoes a'r cyfryngau, megis diwylliant poblogaidd.

Dylai'r cwricwlwm fod yn hyblyg ac yn ymatebol i'r materion a'r cwestiynau a allai godi o wersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae'r technegau hyn yn helpu dysgwyr i drafod materion sensitif a datblygu eu sgiliau gwneud penderfyniadau mewn amgylchedd diogel – er enghraifft:

- Chwarae rôl neu'r defnydd o weithgareddau drama, sy'n gallu helpu dysgwyr i ymarfer sgiliau ac ymddygiadau (e.e. cydsyniad)
- Y defnydd o ddeunyddiau ysgogi megis ffotograffau, cyfryngau digidol, hysbysebion, erthyglau papur newydd, gwrthrychau o ddiddordeb (e.e. arteffact hanesyddol)
- Astudiaethau achos gyda chymeriadau ffug y gall y dysgwyr uniaethu â nhw
- Deunyddiau priodol ar-lein, a
- Gwaith ymchwil ar bynciau allweddol (e.e. stereoteipiau o ran y rhywiau ym meysydd manwerthu a hysbysebu) a arweinir gan y dysgwyr, ac a oruchwylir gan yr athro.

Er mwyn sicrhau bod dull gweithredu ysgol gyfan i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ymatebol i anghenion dysgwyr, dylai ysgolion ystyried ymgynghori â dysgwyr, rhieni a gofalwyr wrth ddylunio eu cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Mae ysgolion yn cael eu hannog i ymgysylltu â'u dysgwyr a chasglu eu safbwyntiau er mwyn deall eu profiadau yn well a llywio dyluniad eu darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Mae ysgolion uwchradd yng Nghymru yn gallu ymuno â'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, sy'n defnyddio arolwg myfyriwr electronig i gynhyrchu Adroddiad Iechyd a Lles Myfyrywr unigol bob dwy flynedd. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi data i ysgolion ar bynciau iechyd corfforol ac emosiynol gyda chymhariaeth ar gyfer data cenedlaethol, gan gynnwys ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Ceir rhagor o wybodaeth ar [wefan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion](#).

Yn yr un modd, gall ymgysylltu â rhieni a gofalwyr gynorthwyo ysgolion i siapio darpariaeth sy'n ystyried eu dymuniadau a'u pryderon ac sy'n briodol i oedran ac amgylchiadau dysgwyr. Gall y dull cydweithredol hwn wella cyflenwi negeseuon cadarnhaol ynglŷn ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, gyda rhieni a gofalwyr yn cael rôl ganolog i'w chwarae o ran ailadrodd ac atgyfnerthu'r negeseuon hyn i'w plant. Mae angen i rieni a gofalwyr wybod y gallant chwarae rhan weithredol wrth benderfynu ar bolisi addysg rhyw'r ysgol ac y bydd rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yr ysgol yn ategu a chefnogi eu rôl. Dylai ysgolion hefyd geisio safbwyntiau rhieni a gofalwyr, a'r plant a'r bobl ifanc eu hunain wrth ddatblygu eu polisiau addysg rhyw.

WEDI'I DYLUNIO'N GREADIGOL

Mae dulliau creadigol yn datblygu gallu dysgwyr i edrych ar wahanol safbwyntiau a mynd ati i ystyried persbectif a phrofiad pobl eraill. Maent yn rhoi cyfle i ddysgwyr, yn aml drwy weithgareddau ymarferol neu artistig, i herio, trafod, ystyried a datrys problemau heb gymhwyso'r materion dan sylw yn bersonol.

Mae gwaith ymchwil o ran arfer gorau mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn dangos manteision tynnu ar addysgeg creadigol ar gyfer datblygu dulliau dysgu diogel a deniadol. Er enghraifft, gall dulliau creadigol helpu dysgwyr i fynegi mewn cyd-destun diogel sut maent yn teimlo am faterion anodd neu sensitif, ee beth sy'n niweidiol, beth sy'n deg neu beth sy'n gydsyniad heb orfod datgelu gwybodaeth neu brofiad personol. Gall gweithio'n creadigol alluogi dysgwyr hefyd i ddychmygu bywydau, teuluoedd a phrofiadau eraill a ffyrdd eraill o fyw yn y byd. Mae dulliau creadigol o gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ehangach hefyd yn help i ddysgwyr fynegi teimladau newydd, cryf neu aneglur ac ymateb i syniadau neu sefyllfaoedd cyfarwydd neu anghyfarwydd.

Gall addysg gan gyfoedion ddarparu ffordd creadigol o ymgysylltu ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a chydabyddir ei bod yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau ac ymddygiadau dysgwyr. Dylai ysgolion uwchradd ystyried hyfforddi a defnyddio dysgwyr fel addysgwyr-gyfoedion wrth gyflenwi'r rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a gellid cyflawni hyn fel rhan o Fagloriaeth Cymru ysgol. Mae gan wefan CBAC amrediad o heriau cymunedol ar gyfer Bagloriaeth Cymru ar Gyfnod Allweddol 4 sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant a datblygu sgiliau hyfforddiant a mentora cyfoedion (ee o gydberthnasau iach i hawliau LGBTQ+). Dylai addysgwyr-gyfoedion ategu ac nid disodli rôl athrawon hyfforddedig, a dylai pob sesiwn a arweinir gan gyfoedion gael ei hwyluso a'i goruchwyllo gan athro.

Yn ogystal, gallai pobl mor ifanc fod yn arbennig o agored i risg. Dylid sicrhau nad yw addysgwyr-gyfoedion yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol amhriodol neu'n cael eu stigmatiddio gan eu cyfoedion. Mae ysgolion yn cael eu hannog i weithio gyda rhieni neu ofalwyr mentoriaid-gyfoedion posibl i sicrhau ei fod yn briodol eu bod yn cymryd rhan mewn rhaglen o'r fath a'u bod yn cael eu cefnogi'n ddigonol o ran eu hiechyd a'u llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol eu hun.

Dylai unrhyw fewnbwn gan addysgwyr-gyfoedion gyd-fynd â pholisi addysg rhyw'r ysgol a dylai gael ei wneud yn ymwybodol o hynny a glynu ato wrth gyflwyno'r wers.

Mae angen sesiynau dysgu a chymorth proffesiynol o ansawdd uchel ar addysgwyr-gyfoedion. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod rhaglenni addysg cyfoedion yn cael eu cynnwys fel rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac nid ydynt yn cael eu defnyddio ar wahân. Mae hyn er mwyn sicrhau bod dysgu o raglenni sydd wedi'u harwain gan gyfoedion yn atgyfnerthu cwricwlwm, strwythur polisi a rhaglenni cymorth bugeiliol yr ysgol.

Mae astudiaeth achos yn dangos sut mae Ysgol Uwchradd Tywyn wedi defnyddio mentora cyfoedion yn effeithiol i ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o ansawdd uchel wedi'i chynnwys yn **Atodiad D**.

GRYMUSO A THRAWSFFURFIO

Mae dull gweithredu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n grymuso a thrawsffurfio yn pwysleisio dull gweithredu cadarnhaol i ddysgu ynglŷn â chydberthnasau, rhywioldeb a rhyw. Roedd ymchwil a ddadansoddwyd gan y panel arbenigol yn dangos nad yw dulliau a oedd yn seiliedig ar feio a chywilyddio i'r maes astudio hwn, sy'n canolbwyntio ar risg a chanlyniadau negyddol yn unig, yn rhoi gwybodaeth ddigonol i ddysgwyr i ffurfio dealltwriaeth effeithiol ynglŷn â materion a ddarperir o dan Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Dylai dulliau gweithredu cadarnhaol tuag at Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb alluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth i wneud dewisiadau gwybodus sy'n cefnogi profiadau bywyd cadarnhaol, gan gynnwys llesiant rhywiol a chydberthnasau iach.

Un elfen allweddol o gyflwyno Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yw rhoi cyfle i blant a phobl ifanc arwain sesiynau dysgu. Bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n grymuso ac yn trawsnewid yn cefnogi plant a phobl ifanc wrth i ddinasyddion egniol herio effaith agweddau a disgwyliadau cymdeithasol niweidiol mewn perthynas â rhyw, rhywedd, rhywioldeb a chydberthnasau, ee gwahaniaethu yn erbyn merched neu ar sail rhywedd. Mae gweithgareddau fel trafodaethau dosbarth sydd wedi'u cynllunio'n dda yn caniatáu i ddysgwyr archwilio safbwyntiau personol, egluro gwerthoedd a mynegi teimladau. Mae gweithgareddau trafod a myfyrio yn galluogi dysgwyr i fynegi a rhannu eu safbwyntiau gydag eraill. Mae cwestiynau penagored ac asesu ar gyfer technegau dysgu yn annog myfyrio, gan helpu dysgwyr i feddwl am yr hyn maent wedi'i ddysgu a'r sgiliau maent wedi eu datblygu.

AMDDIFFYNNOL AC ATALIOL

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb amddiffynnol ac ataliol yn cael ei llywio gan nifer o'r erthyglau amddiffynnol sydd wedi'u hymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae Erthygl 19, 32, 35 a 37 yn nodi y dylai llywodraethau amddiffyn plant o dan 18 oed rhag pob ffurf ar drais corfforol neu feddyliol, anaf neu gamdriniaeth. Mae Erthygl 2 yn cwmpasu rhyddid rhag camwahaniaethu (e.e. rhywiaeth, hiliaeth, sectyddiaeth, homoffobia, trawsffobia, camwahaniaethu yn erbyn yr anabl neu alluogrwydd), mae Erthygl 8 yn cynnwys yr hawl i hunaniaeth (gan gynnwys hunaniaeth rhywedd a rhywiol), ac mae Erthygl 24 a 31 yn nodi hawliau plant i iechyd, llesiant a

chwarae. Trwy integreiddio'r erthyglau hyn gyda Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bydd cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb amddiffynnol ac ataliol yn galluogi plant a phobl ifanc i adeiladu ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut i adnabod camwahaniaethu, cydberthnasau camdriniol a thrais a datblygu dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â chydysniad.

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ataliol ac amddiffynnol hefyd yn osgoi canolbwyntio ar strategaethau sy'n lleihau risg bersonol yn unig. Yn hytrach, mae'n defnyddio addysgeg ryngweithiol sy'n annog cydweithio o fewn yr ysgol a chyda rhieni a'r gymuned ehangach. Dylai gefnogi plant a phobl ifanc i feithrin y gwydnwch, tosturi a llythrennedd emosiynol a chymdeithasol angenrheidiol i ymgysylltu'n gadarnhaol â newid (e.e. mewn perthynas â'u hunaniaeth, eu corff, mewn cydberthnasau, mewn teuluoedd ac yn y gymdeithas).

Bydd hefyd yn cefnogi wrth feithrin hyder plant a phobl ifanc i gyfathrebu'n effeithiol a gwybod ble a sut i geisio cyngor, cymorth, diogelwch a gwybodaeth ffeithiol (e.e. ar gydraddoldeb/tegwch rhyw a rhywedd, iechyd rhywiol, materion LHDTQ+ a materion yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol).

Gweithio gyda darparwyr allanol

Gall cydweithio gyda darparwyr allanol gefnogi ysgolion i ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o ansawdd uchel o fewn y cwricwlwm a chynorthwyo gyda dysgu ynglŷn â materion sensitif.

Gallai elfennau o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gael eu darparu gan amrediad eang o bobl, gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ieuencid, addysgwyr cyfoedion, a chwrselwyr sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion. Mae partneriaid cymunedol yn dod â phersbectif newydd ac yn cynnig gwybodaeth, profiad ac adnoddau arbenigol. Er enghraifft, mae nyrsys ysgol yn ffynhonnell werthfawr o gyngor a chymorth i ddysgwyr a gallant drefnu mynediad at wasanaethau iechyd rhywiol. Mae hyn yn arbennig o effeithiol pan fo'n cael ei gyflenwi fel rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan, pan fo gweithwyr proffesiynol yn gallu defnyddio eu harbenigedd, sgiliau a dulliau addysgol effeithiol i wella agweddau ac ymddygiadau cadarnhaol sy'n cael eu mabwysiadu ar draws cwricwlwm ac amgylchedd yr ysgol.

Mae Ymddiriedolaeth Terrence Higgins wedi darparu astudiaeth achos sydd i'w gweld yn Atodiad D ynghylch prosiect cymunedol y mae'n ei redeg o'r enw "Positive Voices". Prosiect am bobl sy'n byw gyda HIV yw hwn, sy'n rhannu eu straeon personol er mwyn codi ymwybyddiaeth o HIV a hyrwyddo iechyd rhywiol i bawb. Mae UNICEF hefyd wedi darparu astudiaeth achos sy'n rhoi gwybodaeth am ei wobwr 'Ysgolion sy'n Parchu Hawliau'. Mae UNICEF yn gweithio gydag ysgolion yn y DU i greu llefydd diogel i ddysgu sy'n ysbrydoli dysgwyr, lle cânt eu parchu, lle caiff eu doniau eu meithrin a lle gallant ffynnu. Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen y Fai ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi ennill statws Aur y wobwr. Gallwch ddarllen mwy am eu profiadau yn Atodiad D.

Polisi Addysg Rhyw

Mae'n rhaid i bob uned cyfeirio disgyblion ac ysgol a gynhelir, a phob ysgol gynradd, ysgol uwchradd ac ysgol arbenigol, feddu ar bolisi addysg rhyw ysgrifenedig cyfredol sydd ar gael i'w archwilio gan rieni neu ofalwyr. Mae gan gyrrff llywodraethu rôl allweddol, ynghyd â phenaethiaid a staff perthnasol, wrth benderfynu ar a monitro effeithiolrwydd rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yr ysgol. Argymhellir bod cyrrff llywodraethu yn sicrhau bod y polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ysgrifenedig yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

Dylai'r polisi:

- amlinellu gweledigaeth yr ysgol o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o fewn fframwaith clir o werthoedd
- nodi amcanion a deilliannau disgwylidig rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yr ysgol yn glir
- disgrifio sut mae'r rhaglen yn cael ei rheoli a'i threfnu, a sut mae'n ffurfio cysylltiadau gyda meysydd eraill y cwricwlwm ysgol
- amlinellu sut mae'r rhaglen yn cael ei chyflenwi, y dulliau dysgu a'r adnoddau a ddefnyddiwyd, a phwy sy'n gyfrifol am eu darparu
- amlinellu cynnwys y rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar gyfer pob grŵp blwyddyn, gan grynhoi pryd y dylid cyflwyno themâu allweddol a sut y dylid delio â materion sensitif
- disgrifio sut mae polisiâu'r ysgol ar gyfrinachedd, diogelu ac amddiffyn plant yn gysylltiedig ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
- esbonio sut y bydd dysgwyr yn derbyn canllawiau ynglŷn â ble y gallant ddod o hyd i gyngor cyfrinachol, cwnsela a thriniaeth (lle y bo'n angenrheidiol)
- nodi sut y bydd safbwyntiau dysgwyr yn cael eu casglu
- crynhoi sut mae gweithwyr iechedd proffesiynol ac asiantaethau allanol arbenigol yn chwarae rhan ac yn gwella'r rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
- esbonio sut mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei monitro a'i gwerthuso, gan nodi'r dulliau a'r amserlen ar gyfer ei hadolygu'n rheolaidd a sicrhau ei bod yn berthnasol ac yn gyfredol
- cynnwys datganiad am hawl y rhieni neu'r gofalwyr i dynnu eu plentyn allan o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Yr hawl i dynnu allan

Trwy gydweithio effeithiol gyda rhieni a gofalwyr, dylai ysgolion sicrhau bod eu darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn mynd i'r afael ag anghenion eu disgyblion yn yr ysgol a'r gymuned y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu. Ni fydd bob amser yn bosibl ystyried dymuniadau'r holl rieni/gofalwyr ac, ar y pwynt hwnnw, gall rhieni/gofalwyr ofyn i'r plentyn gael ei dynnu allan o wersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Dylai rhieni agofalwyr sy'n dymuno tynnu eu plant allan yn gyfangwbl neu'n rhannol o addysg rhyw a ddarperir mewn ysgol a gynhelir wneud cais, ac mae'n rhaid i'r ysgolion anrhydeddu hynny. Dylai ysgolion gadw cofnod o geisiadau o'r fath. Mae'r hawl hon yn parhau tan fod y dysgwr yn cyrraedd 19 mlwydd oed. Byddai'n arfer da pe byddai'r cais yn

cael ei wneud yn ysgrifenedig fel bod cofnod ysgrifenedig o'r cais hwnnw pe byddai angen cyfeirio ato yn y dyfodol.

Dylai ysgolion wneud trefniadau amgen ar gyfer dysgwyr y mae eu rhieni/gofalwyr wedi dewis eu tynnu allan o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Dolenni i bolisiau

Mae dull gweithredu ysgol gyfan effeithiol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn sicrhau bod polisiau ehangach yr ysgol yn atgyfnerthu ac ailadrodd negeseuon cadarnhaol o gwmpas cydberthnasau iach a rhywioldeb.

Er na fwriedir i hon fod yn rhestr drwyadl, dylai ysgolion sicrhau bod y polisiau hyn yn cael eu hadolygu i sicrhau cysondeb dull gweithredu:

Diogelu

Mae gan bawb sy'n dod i gysylltiad â phlant a'u teuluoedd rôl i'w chwarae wrth ddiogelu plant. Pan fo Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei dysgu, mae risg bosibl i'r testunau sy'n cael eu trafod, fel cydsyniad, parch a thrais domestig, ysgogi dysgwr i wneud datgeliad am achos o gam-drin, esgeulustod neu niwed o fath arall. Dylai pob ysgol nodi person uwch dynodedig i fod yn bennaf gyfrifol am reoli datgeliadau o'r fath. Rhaid i'r person uwch dynodedig wybod sut i adnabod arwyddion camdriniaeth ac esgeulustod, a gwybod pryd mae'n briodol cyfeirio dysgwr i'r asiantaethau ymchwilio perthnasol. Nid ymchwilio i honiadau yw rôl y person uwch dynodedig, ond rhoi gwybodaeth i'r pennaeth am bob datgeliad ac achos sy'n codi yn yr ysgol ym maes diogelwch plant, gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill yn y prosesau cyfeirio, a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu a'u cefnogi.

Mae dyletswydd statudol i adrodd am blant mewn perygl dan Adran 130 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r ddyletswydd hon yn golygu ei bod yn ofynnol i bartneriaid, gan gynnwys timau addysg, iechyd, yr heddlu, y gwasanaeth prawf a throseddau ieuencid, hysbysu'r awdurdod lleol pan fo ganddynt achos rhesymol i gredu bod plentyn mewn perygl o gam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o niwed. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi casgliad o ganllawiau statudol, o dan bennawd cyffredin '**Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl**', sy'n amlinellu rôl yr awdurdod lleol a phartneriaid perthnasol wrth sicrhau trefniadau diogelu effeithiol ymhob awdurdod lleol.

Gweler y dolenni canlynol:

<https://gov.wales/topics/health/socialcare/act/code-of-practice/?skip=1&lang=cy>

Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru, *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*, yn amlinellu rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol i sicrhau bod ganddynt systemau effeithiol i ymateb i bryderon ym maes diogelwch plant.

Mae gan ysgolion hefyd rôl ganolog o ran helpu plant i feithrin y gallu i oresgyn problemau, drwy hyrwyddo iechyd meddwl a llesiant a darparu prosesau i atal problemau ac ymyrryd yn gynnar ar sail tystiolaeth. Gall gwasanaethau o fewn ysgolion hwyluso mynediad i gymorth, mynd i'r afael yn well â phroblem straen sy'n ymwneud â'r ysgol, a lleihau'r pwysau ar

wasanaethau arbenigol eraill fel cwnsela i blant a phobl ifanc, a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

Bwlio

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn annog ysgolion i feithrin amgylchedd lle bo dysgwyr yn gallu meithrin parch at eraill. Dylai ysgolion fynd i'r afael â bwlio ac aflonyddwch o bob math, gan gynnwys unrhyw beth sy'n gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol a pherthnasau rhywiol. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid bod gan bob ysgol bolisi ymddygiad ysgol. Dylai strategaethau gwrth-fwlio effeithiol fod yn ganolog i'r polisi ymddygiad hwnnw a chael eu datblygu a'u rhoi ar waith gan bawb yn yr ysgol, gan gynnwys staff a disgyblion. Dylai ysgolion a gwasanaethau addysg ei wneud yn glir fod pob math o fwlio yn hollol annerbyniol a delio gydag unrhyw amheuaeth o fwlio yn unol â pholisi ymddygiad yr ysgol. Mae canllawiau gwrth-fwlio Llywodraeth Cymru yn cynnig datrysiadau ymarferol ar gyfer atal a delio gydag achosion o fwlio mewn ysgolion.

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Gallai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, er ei bod yn meithrin agweddau ac ymddygiadau cadarnhaol, hefyd roi gofod i ddysgwyr archwilio nodweddion cydberthnasau nad ydynt yn rhai iach.

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cyffwrdd â llawer o fywydau. Amcangyfrifir bod un ym mhob pedair menyw yn y DU wedi dioddef camdriniaeth ddomestig, a bod un ym mhob pump wedi dioddef trais rhywiol. Mae gan hyn oblygiadau arbennig o ddifrifol ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc, boed yn ddiodefwyr, neu'n dystion i gamdriniaeth ddomestig. Gall effeithio ar eu diogelwch, iechyd, iechyd meddwl a llesiant cyffredinol. Mae'n effeithio ar gydberthnasau teuluol a gyda chyfoedion, y potensial i fwynhau cydberthnasau iach, hapus a llawn parch yn y dyfodol, a gall effeithio ar gyrhaeddiad addysgol cyfredol ac yn y dyfodol.

Bydd pobl ifanc a staff yn eich ysgol sy'n profi neu'n achosi trais ar hyn o bryd yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol, neu sydd wedi gwneud hynny yn y gorffennol. Dylai pob ysgol a sefydliad addysg bellach fod yn gyfrifol am sicrhau bod ei ddysgwyr a staff yn ddiogel ac yn iach.

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn cynnig cyfle i fod ar flaen y gad o ran gwaith ataliol yma yng Nghymru.

Mae lleoliadau addysgol yn darparu amgylchedd lle y gellir meithrin agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb rhywiol a chydberthnasau iach sy'n llawn parch drwy ddull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau.

Mae mabwysiadu dull gweithredu ysgol gyfan sy'n cynnwys addysg ataliol o fewn a thrwy gydol pob rhan o fywyd ysgol a choleg, ac sydd hefyd yn cynnwys y gymuned ehangach, yn bwysig.

Cafodd canllawiau Llywodraeth Cymru, sef Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru ei ddatblygu ar y cyd â Chymorth i Fenywod Cymru. Bwriedir iddo fod yn becyn cymorth ymarferol a defnyddiol er mwyn ymgorffori egwyddorion dull addysg gyfan tuag at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol oddi mewn iddo. Mae'n cydnabod pwysigrwydd lleoliadau addysg yn creu amgylchedd lle y gellir meithrin agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb rhywedd a chydberthnasau iach a llawn parch.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ymarferol i lywodraethwyr ysgolion ynglŷn â'r angen i ddatblygu polisi ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, sut i adnabod dangosyddion cam-drin, a ble i gael cymorth ar gyfer eu hunain, eu cydweithwyr neu eu disgyblion.

Polisiau gwisg ysgol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu ar wisg ysgol ac ymddangosiad disgyblion ysgol.

<https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/canllawiau-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-ar-bolisiau-gwisg-ysgol-ac-edrychiad-disgyblion-diwygiwyd-gorffena-2011.pdf>

Cymorth allanol

Arwyddbostio

Dylai dull gweithredu ysgol gyfan, effeithiol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sicrhau bod dysgwyr yn gwybod i ble i droi am wybodaeth berthnasol, hawdd cael gafael arni, am wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion, gan gynnwys llinellau cymorth, gwefannau, a gwasanaethau cyngor lleol ac iechyd rhywiol. Dylai ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn gwybod i siarad ag oedolyn maent yn ymddiried ynddo ynglŷn ag unrhyw deimladau sy'n peri trafferth iddynt a bod ganddynt fynediad i rifau llinellau cymorth, gwefannau a sefydliadau perthnasol.

Mae **Atodiad C** y ddogfen hon yn darparu gwybodaeth gyswllt ar gyfer sefydliadau sy'n gallu cefnogi dysgwyr ar draws amrywiaeth o faterion, gan gynnwys uniaethu fel LGBTQ+, iechyd rhywiol a cham-drin domestig.

Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru

Mae Rhwydwaith Llywodraeth Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach yn cefnogi ysgolion i ddatblygu dull gweithredu ysgol gyfan mewn perthynas â phynciau iechyd, gan gynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ac mae potensial i weithio tuag at y Wobr Ansawdd Genedlaethol.

Mae ysgol iach yn un sy'n cymryd cyfrifoldeb dros gynnal a hyrwyddo iechyd pawb sy'n 'dysgu, gweithio, chwarae a byw' ynddi, nid yn unig drwy ddysgu dysgwyr yn ffurfiol ynglŷn â

sut i fyw bywydau iach, ond hefyd drwy alluogi dysgwyr a staff i gymryd rheolaeth dros agweddau o amgylchedd yr ysgol sy'n dylanwadu ar eu hiechyd.

Mae'r dangosyddion ar gyfer y Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru yn manylu ar y meini prawf perfformiad ar gyfer ysgolion sy'n cael eu hasesu ar gyfer y Wobr Ansawdd Genedlaethol.

Maent yn cydnabod amrediad o destunau iechyd, gan gynnwys Datblygiad Personol a Chydberthnasau, sy'n gydnaws ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ac a ddylai gael eu cwmpasu drwy gydol yr amser mae'r ysgol yn chwarae rhan yn y cynllun, ac, ar gyfer pob un o'r rhain, maent yn nodi agweddau pwysig ar ddull gweithredu ysgol gyfan, gan gynnwys arweinyddiaeth a chyfathrebu, cwricwlwm, ethos ac amgylchedd, a chynnwys y teulu a'r gymuned.

Mae cymorth tebyg ar gyfer colegau addysg bellach ar gael drwy'r Fframwaith Addysg Uwch/Addysg Bellach Iach a Chynaliadwy.

Mae mwy o wybodaeth am y rhaglenni yn:

<https://gov.wales/topics/health/improvement/schools/?skip=1&lang=cy>

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/hafan>

Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

Partneriaeth yw hon rhwng ysgolion a'r heddlu sy'n ceisio rhoi cyfleoedd i ddisgyblion wella eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth, eu hymddygiad, eu hagweddau, eu gwerthoedd a'u sgiliau mewn meysydd fel Camddefnyddio Sylweddau, Ymddygiad Cymdeithasol a Diogelwch Personol. Caiff y rhaglen ei chydgyllido gan Lywodraeth Cymru a'r heddlu. Mae mwy o wybodaeth am y rhaglen yn:

<https://www.schoolbeat.org/cy/>

Cwmsela i blant a phobl ifanc a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAHMS)

Mae gan Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb y potensial i gefnogi iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol cyffredinol pobl ifanc. Gallai amgylchiadau godi, fodd bynnag, lle y gallai dysgwyr fod ag angen cymorth arbenigol pellach y tu hwnt i'r hyn a ddarperir o fewn y cwricwlwm.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu gwasanaethau cwmsela annibynnol i blant a phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed a disgyblion ym Mlwyddyn 6 ysgol gynradd. Dylai plant a phobl ifanc fod yn gallu cael mynediad i'r gwasanaeth hwn drwy eu hysgol neu drwy eu hawdurdod lleol, drwy wirio gwefan eu hawdurdod lleol. Mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAHMS) yn wasanaethau GIG sy'n asesu a thrin pobl ifanc gydag anawsterau emosiynol, ymddygiadol neu iechyd meddwl. Mae meddygon teulu, athrawon a rhieni yn gallu atgyfeirio pobl ifanc i CAHMS er mwyn eu hasesu a rhoi cymorth iddynt.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am wasanaethau cwnsela ysgolion a CAHMS, gan gynnwys arwyddbostio i sefydliadu trydydd sector sy'n gallu darparu gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc, yng nghanllaw Llywodraeth Cymru: *Cydweithio rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a'r Gwasanaeth Cwnsela.*

<https://beta.llyw.cymru/gwasanaethau-iechyd-meddwl-plant-phobl-ifanc-ar-gwasanaeth-cwnsela>

Atodiad A: Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer addysg rhyw

Diffiniad o addysg rhyw

A.1 Mae Adran 579 (1) Deddf Addysg 1996 yn nodi diffiniad o 'addysg rhyw', sydd yn cynnwys addysg ynglŷn â:

- (a) Syndrom Diffyg Imiwneidd Caffaeledig (AIDS) a'r Firws Diffyg Imiwneidd Dynol (HIV); a
- (b) unrhyw glefyd arall a drosglwyddir yn rhywiol.

Polisi addysg rhyw

A.2 Mae Adran 404 Deddf Addysg 1996 yn ei wneud yn ofynnol i gyrrff llywodraethu'r **holl** ysgolion a gynhelir wneud fel a ganlyn:

(a) gwneud, a diweddarau, datganiad ysgrifenedig ar wahân o'u polisi o ran darparu addysg rhyw, a

(b) sicrhau bod copïau o'r datganiad ar gael i'w harchwilio (ar bob amser rhesymol) gan rieni'r plant sy'n gofrestredig yn yr ysgol a darparu copi am ddim i unrhyw riant sy'n gofyn am gopi.

A.3 Mae'n rhaid i'r datganiad polisi hefyd gynnwys datganiad am hawliau rhieni o dan Adran 405 Deddf Addysg 1996 i eithrio/tynnu eu plentyn allan o addysg rhyw.

Ysgolion uwchradd

A.4 Mae Adran 101(1)(c) Deddf Addysg 2002 yn ei wneud yn ofynnol i'r holl ysgolion uwchradd a gynhelir gynnwys addysg rhyw ar gyfer yr holl ddisgyblion cofrestredig fel rhan o 'gwrwicwlwm sylfaenol' yr ysgol.

Ysgolion cynradd

A.5 Nid yw Adran 101(1) Deddf Addysg 2002 yn ei wneud yn ofynnol i ysgolion cynradd ddarparu addysg rhyw fel rhan o'r 'cwrwicwlwm sylfaenol'. Gall ysgolion cynradd ddarparu addysg rhyw ond mae p'un ai a ydynt yn gwneud hynny yn ôl disgrisiwn yr ysgol.

Ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion

A.6 O dan Adran 101 Deddf Addysg 2002, gall ysgolion arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion ddarparu addysg rhyw ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gynradd ac mae'n rhaid iddynt ei darparu ar gyfer disgyblion oedran ysgol uwchradd. Nid oes unrhyw ofyniad i ysgolion arbennig mewn ysbytai ddarparu addysg rhyw, ond os ydynt yn darparu addysg uwchradd, mae'n rhaid iddynt gael polisi ar addysg rhyw, ac os ydynt yn darparu addysg rhyw, mae'n rhaid iddynt ystyried y canllawiau hyn.

Canllawiau

A.7 Pan fydd addysg rhyw yn cael ei darparu, mae Adran 403 (1B) Deddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd) yn ei wneud yn ofynnol i benaethiaid a chyrrff llywodraethu ystyried canllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

A.8 Mae Adran 403 (1C) yn ei wneud yn ofynnol i ganllawiau'r Cynulliad 'gynnwys canllawiau ynglŷn ag unrhyw ddeunydd a allai fod wedi'i gynhyrchu gan gyrrff y GIG i'w ddefnyddio at ddibenion addysg rhyw mewn ysgolion'.

Priodas, bywyd teuluol a deunyddiau anaddas

A.9 Mae Adran 403 Deddf Addysg 1996 yn ei wneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu a'r pennaeth wneud y canlynol: cymryd camau o'r fath ag y bo'n rhesymol ymarferol i sicrhau, pan fo addysg rhyw yn cael ei rhoi i unrhyw ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, ei bod yn cael ei rhoi yn y fath fodd i annog y disgyblion hynny i roi sylw dyledus i ystyriaethau moesol a gwerth bywyd teuluol.

A.10 Yn ogystal, mae Adran (1A) o Adran 403 Deddf Addysg 1996 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau a ddyluniwyd i sicrhau pan fo addysg rhyw yn cael ei rhoi i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir:

(a) eu bod yn dysgu am natur priodas a'i phwysigrwydd ar gyfer bywyd teuluol a magu plant, a

(b) eu bod yn cael eu diogelu rhag dysgu a deunyddiau sy'n anaddas o ystyried oedran a chefnidir crefyddol a diwylliannol y disgyblion o dan sylw.

Cyfrifoldeb rhieni

A.11 Mae Adran 576 Deddf Addysg 1996 yn diffinio 'rhiant' fel a ganlyn:

(1) Yn y Ddeddf hon, oni bai fod y cyd-destun yn ei wneud yn ofynnol fel arall, mae 'rhiant', mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc, yn cynnwys unrhyw unigolyn –

(a) nad yw'n rhiant iddo ond mae ganddo gyfrifoldeb rhieni drosto, neu

(b) sy'n gofalu am y plentyn. Mae Adran 3 (1) Deddf Plant 1989 yn diffinio 'cyfrifoldeb rhieni' fel a ganlyn: (1) Yn y Ddeddf hon, mae 'cyfrifoldeb rhieni' yn cynnwys yr holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant mewn perthynas â'r plentyn a'i eiddo yn ôl y gyfraith. Mae'n rhaid felly cymryd bod cyfeiriadau at rieni/gofalwyr yn y canllawiau hyn yn cynnwys y rheini gyda chyfrifoldeb rhieni neu ofal dros blentyn.

Esemptiad / tynnu allan o addysg rhyw

A.12 Mae Adran 405 Deddf Addysg 1996 yn galluogi rhieni i atal eu plant, naill ai'n gyfangwbl neu'n rhannol, rhag derbyn addysg rhyw yn yr ysgol ar wahân i addysg rhyw a gynhwysir yn y cwricwlwm cenedlaethol.

Os yw rhiant unrhyw ddisgybl sy'n mynychu ysgol a gynhelir yn gwneud cais iddo gael ei esgusodi yn gyfangwbl neu'n rhannol rhag derbyn addysg rhyw yn yr ysgol, gall y disgybl, ar wahân i'r addysg o'r math a gynhwysir yn y cwricwlwm cenedlaethol, gael ei esgusodi yn unol â hynny tan fod y cais yn cael ei dynnu yn ôl.

Atodiad B – Gwybodaeth gyfreithiol ynglŷn ag oedran cydsyniad rhywiol

Mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn nodi mai 16 oed yw'r oedran cyfreithiol ar gyfer gweithgarwch rhywiol. Mae'n darparu amddiffyniad cyfreithiol pellach i blant sy'n 12 oed ac yn iau, na all roi eu cydsyniad yn gyfreithiol i unrhyw fath o weithgarwch rhywiol. Yn ôl y gyfraith, mae gweithgarwch rhywiol gyda phlentyn o dan 13 oed yn drosedd ddifrifol ac mae'n adlewyrchu safbwynt y gymdeithas na ddylai plant sy'n iau na 13 oed fod yn weithgar yn rhywiol ac y gallai lefel eu perygl i gamfanteisio a'u paratoi i bwrpas rhyw fod yn sylweddol.

Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn cynnwys protocol ar ddiogelu a hyrwyddo llesiant pobl ifanc sy'n weithgar yn rhywiol, ac maent wedi'u dylunio i adnabod lle y gallai'r cydberthnasau hyn fod yn gamdriniol a lle y gallai fod angen i blant a phobl ifanc gael eu diogelu. Mae'r protocol hwn yn cymeradwyo'r canlynol:

- Ni ddylai gweithgarwch rhywiol rhwng pobl ifanc sy'n cydsynio fod yn droseddol
- Y sefyllfa gyfreithiol yw bod gweithgarwch rhywiol o dan 16 oed yn drosedd

Yn ymarferol, bydd y protocol hwn yn berthnasol ar gyfer y rhai sydd o dan 16 oed. Fodd bynnag, mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol bob amser fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o gam-drin a/neu gamfanteisio yn y grwpiau 16-18 oed.

Mae'n rhaid i unrhyw blentyn o dan 16 oed, beth bynnag fo'i rywedd neu gyfeiriadedd rhywiol, a gredir sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol, neu'n cynllunio gwneud hynny, gael ei anghenion o ran ei iechyd, addysg, cymorth a/neu ddiogelwch wedi'u hasesu gan yr asiantaeth sy'n gysylltiedig. Mae'n rhaid i'r asesiad hwn gael ei gynnal yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

Os bydd merch o dan 13 oed yn cael ei chanfod i fod yn feichiog, mae'n rhaid gwneud atgyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol, lle y bydd asesiad cychwynnol yn cael ei gwblhau a bydd cyfarfod a/neu drafodaeth strategol yn cael ei chynnal, a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o faes iechyd ac addysg.

Yn ogystal, mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 hefyd yn amlinellu ei fod yn drosedd i unigolyn sy'n 18 oed neu'n hŷn gael gweithgarwch rhywiol gydag unrhyw unigolyn o dan 18 oed os yw'r unigolyn hŷn mewn safle o ymddiriedaeth (er enghraifft, athro neu weithiwr cymdeithasol) gan fod gweithgarwch rhywiol o'r fath yn camddefnyddio'r safle o ymddiriedaeth. Yng Nghymru, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi bod plentyn yn unrhyw un o dan 18 oed.

Atodiad C – Arwyddbostio – Dolenni i sefydliadau cymorth allanol

Bwlio

Mae **MEIC** yn llinell gymorth 24 awr sydd am ddim i blant a phobl ifanc. Mae **MEIC** yn darparu cyngor a chymorth ar gyfer amrywiaeth o faterion, gan gynnwys bwlio:

www.meiccymru.org/cym/

Mae **Llywodraeth Cymru** yn darparu taflenni gyda chynghor yn ymwneud â bwlio ar gyfer plant, pobl ifanc, oedolion, a rhieni'r sawl sy'n cael eu bwlio:

<https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/taflen-wyt-ti%E2%80%99n-cael-dy-fwlio.pdf>

https://beta.llyw.cymru/bwlio-yn-yr-ysgol-canllawiau-i-rieni-gofalwyr?_ga=2.267350855.817868649.1537975964-1745072684.1523287952

https://beta.llyw.cymru/bwlio-posteri-i-blant-phobl-ifanc?_ga=2.258956355.817868649.1537975964-1745072684.1523287952

Hawliau plant

Mae **Comisiynydd Plant Cymru** yn cefnogi plant a phobl ifanc i ddysgu mwy am eu hawliau a'u cefnogi pan fyddant wedi cael eu trin yn annheg:

<https://www.complantcymru.org.uk/>

Cydraddoldebau

Mae **Stonewall Cymru** yn ffynhonnell cyngor a gwybodaeth yn ymwneud â materion LHDT:

<https://www.stonewallcymru.org.uk/cy/cymorth-chyngor>

Mae **Umbrella** yn sefydliad cyngor ar rywedd ac amrywiaeth:

<https://www.umbrellacymru.co.uk/>

Mae **Friends and Families of Lesbians and Gays** yn sefydliad ar draws y DU sy'n cynnig cymorth i rieni a'u plant LHDTQ+:

<https://www.fflag.org.uk/>

Mae **Mermaids** yn elusen sydd wedi'i lleoli yn y DU sy'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n cwestiynu eu rhywedd a'u teuluoedd:

<https://www.mermaidsuk.org.uk/>

Diogelwch ar-lein

Mae Hwb, platfform dysgu digidol Llywodraeth Cymru, yn cefnogi dysgwyr, rhieni a gofaldwyr, ac ysgolion a cholegau gydag amrediad o adnoddau a chanllawiau ynglŷn â chadw'n ddiogel ar-lein:

<https://hwb.gov.wales/onlinesafety>

Cyberthnasau a rhyw

Mae **Childline** yn darparu gwybodaeth i bobl ifanc ynglŷn â rhyw, cyberthnasau, diogelwch ar-lein a chydysniad:

<https://www.childline.org.uk/info-advice/friends-relationships-sex/sex-relationships/sex/>

Iechyd rhywiol

Mae **GIG Cymru** yn darparu gwybodaeth ynglŷn ag iechyd rhywiol a chael mynediad at wasanaethau cyngor a chymorth:

<http://www.wales.nhs.uk/pynciauiechyd/fforddofyw/iechydrhywiol>

Mae **Ymddiriedolaeth Terrence Higgins** yn darparu cyngor a chymorth ynglŷn ag HIV ac iechyd rhywiol:

<https://www.tht.org/>

Mae **Cymru Chwareus** yn darparu cyfoeth o wybodaeth sy'n ddefnyddiol i bobl ifanc yn ymwneud â rhyw ac iechyd rhywiol:

<http://www.cymruchwareus.org/>

GIG

<http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/LocalServices/default.aspx?s=SexualHealth&locale=cy>

Cam-drin rhywiol

Mae'r **Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)** yn rhoi cyngor a chymorth yn ymwneud â chanfod plant a phobl ifanc a allai fod yn profi camdriniaeth:

<https://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-abuse-and-neglect/child-sexual-abuse/>

Rhif ffôn: [08088005000](tel:08088005000)

E-bost help@nspcc.org.uk

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Mae'r wefan 'Byw Heb Ofn' yn cynnwys manylion am wasanaethau y gellir cael mynediad iddynt, sy'n cynnwys anffurfio organau cenhedlu benywod, trais ar sail anrhydedd a

phriodas o dan orfod, a chaethwasiaeth – mae gan bob un wybodaeth arwyddbostio i linellau cymorth a gwefannau penodol.

<https://livefearfree.gov.wales/?skip=1&lang=cy>

Llinell gymorth Byw Heb Ofn: 0808 8010 800

Gwasanaeth testun: 078600 77333

E-bost: info@livefearfreehelpline.wales

Prosiect Sbectrwm Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Rhaglen i Gymru gyfan yw **Prosiect Sbectrwm** sy'n cael ei chyllido gan Lywodraeth Cymru a'i chyflwyno gan athrawon profiadol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r gweithdai dwyieithog, sy'n rhad ac am ddim, yn gysylltiedig iawn â'r cwricwlwm ac yn hyrwyddo pwysigrwydd cydberthnasau iach, gan godi ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion, ar yr un pryd, o faterion cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod. Nod y gweithgareddau yw ysgogi dysgwyr i feddwl a thrafod, ond heb fod mor emosiynol eu bod yn achosi gofid.

Ar ddiwedd pob sesiwn, rhoddir gwybodaeth i'r bobl ifanc am ble y gallant gael cymorth a chefnogaeth o fewn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol. Mae Sbectrwm hefyd yn darparu hyfforddiant i staff a llywodraethwyr ysgolion ynghylch effaith camdriniaeth ddomestig ar blentyn, ac mae'n codi ymwybyddiaeth drwy edrych ar ddull gweithredu ysgol gyfan o fynd i'r afael â'r problem.

Gwefan: <http://spectrumproject.co.uk/prosiect-sbectrwm/?lang=cy>

Rhif ffôn: 01267 266924

Cyfeiriad e-bost: spectrum@hafancymru.co.uk

Yn disgwyl dolenni cyswllt ychwanegol gan gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyflawnwyr/darpar droseddwyr/cyfiawnder ieuenctid.

Oedolion sydd wedi troseddu

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu canllawiau arfer da ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar weithio gydag oedolion sydd wedi troseddu ym maes trais yn erbyn menywod, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol.

Mae'r canllawiau drafft ar gael ichi roi adborth arnynt. Unwaith y byddant wedi'u cyhoeddi, bydd y canllawiau yn tynnu sylw at bwysigrwydd gallu staff (gan gynnwys staff ysgolion) i adnabod trais yn erbyn menywod, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol, a rhoi cyngor ar gyfeirio achosion i wasanaethau arbenigol.

Atodiad D - Astudiaethiau Achos

Daw astudiaethau achos 1-4 o adolygiad thematig Estyn o Addysg Perthnasoedd Iach (2017).

Astudiaeth Achos 1: Ysgol Arbennig Pen Coch

Gwybodaeth am yr ysgol

Lleolir Ysgol Pen Coch yn y Fflint, yn y Gogledd. Ysgol arbennig a gynhelir yn Sir y Fflint yw Ysgol Pen Coch. Ar hyn o bryd, mae 104 o ddisgyblion rhwng 3 oed ac 11 oed wedi'u hymrestru yn yr ysgol. Mae darpariaeth yr ysgol yn diwallu anghenion dysgwyr ag anghenion haenog cymhleth. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr ag anawsterau dwys a lluosog, cyflyrau ar y sbectwm awtistig, anghenion cyfathrebu, anghenion synhwyraidd, anghenion corfforol a/neu anghenion cymdeithasol ac anghenion iechyd meddwl emosiynol.

Cyd-destun a chefnidir yr ymarfer

Dysgu wedi'i bersonoli sydd wrth wraidd dull gweithredu Ysgol Pen Coch, ac mae'r ysgol yn arbenigo mewn Ymyrraeth Therapiwtig hefyd. Mae llwyddiant Ysgol Pen Coch yn seiliedig ar ei dealltwriaeth o sut mae diagnosis o awtistiaeth, anghenion cymhleth neu anghenion cymdeithasol ac emosiynol ac iechyd yn effeithio ar bob elfen o ddysgu plentyn. Mae'r ysgol yn cydnabod cryfderau disgyblion ac yn gweithio gyda nhw i ddatblygu eu huchelgeisiau, gwireddu eu dyheadau, a datblygu agweddau cadarnhaol tuag at eraill. Mae hyn yn cynnwys datblygu ymwybyddiaeth o wybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o berthynas ddiogel ag eraill, gan gynnwys diogelwch ar-lein.

Disgrifiad o'r gweithgaredd/strategaeth

Mae'r ysgol wedi cyflwyno nifer o weithgareddau a strategaethau gwahanol er mwyn hyrwyddo cysylltiadau diogel yn yr ysgol ac yng nghymuned yr ysgol. Mae cysylltiadau diogel ac iach yn cael eu hyrwyddo gan yr holl staff ar ffurf rheolau 'dangos 5 i mi', sef strategaeth a ddatblygwyd trwy ddefnyddio'r Rhaglen Blynyddoedd Rhyfeddol. Cynhelir rhaglenni rheoli dosbarth ledled yr ysgol, gan roi sylw i berthynas ddiogel ag eraill, fel deall teimladau personol a theimladau pobl eraill. Hefyd, cynhelir sesiynau therapi mewn grwpiau bach ar gyfer disgyblion sydd angen rhagor o gymorth, gan gynnwys sgiliau gwranddo, a chynhelir gwasanaeth dathlu ysgol gyfan er mwyn cyflwyno tystysgrifau i ddisgyblion sydd wedi cynnal perthynas ddiogel ac iach ag eraill. Mae'r rheolau 'dangos 5 i mi' yn cael eu harddangos ym mhob ystafell ddosbarth ac mae staff yn gwisgo bathodyn gweledol er mwyn hyrwyddo'r rheolau o gwmpas yr ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio adnoddau'r Swyddog Cyswllt Cymunedol, sy'n ymweld â'r ysgol gydol y flwyddyn i hyrwyddo diogelwch ar-lein a materion yn ymwneud â pherygl dieithriaid i grwpiau o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Mae'r sesiynau'n weledol, yn ymarferol ac yn defnyddio dulliau gweithredu synhwyraidd fel bod pob disgybl yn gallu cymryd rhan yn y trafodaethau. Mae'r ysgol wedi datblygu sesiynau "clwb digidol" sy'n canolbwyntio ar godio personol a sgiliau cyfrifiadura, gan gynnwys diogelwch ar-lein. Nod y sesiynau yw dilyn diddordebau disgyblion, hyrwyddo sgiliau meddwl a datrys problemau.

Effaith ar ddarpariaeth a safonau

Mae'r ysgol wedi datblygu ysgolion sgiliau sy'n seiliedig ar y 'graddfeydd p' er mwyn mesur yr effaith ar ddarpariaeth a safonau. Mae athrawon yn defnyddio ysgol sgiliau y berthynas ag eraill a rhywioldeb mewn addysg i'w helpu i osod targedau unigol ar gyfer disgyblion. Mae athrawon yn olrhain yr ysgolion sgiliau hyn er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn codi safonau disgyblion. Mae'r ysgol yn datblygu ei ddarpariaeth ar gyfer rhieni ym maes dogelwch ar-lein a bydd yn cynnal rhagor o sesiynau yn y dyfodol.

Astudiaeth achos 2: Ysgol Gynradd Sant Woolos

Gwybodaeth am yr ysgol

Mae Ysgol Gynradd Sant Woolos yng Nghasnewydd. Mae 337 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae gan yr ysgol boblogaeth amrywiol sy'n cynnwys disgyblion o lawer o wledydd. Ar draws poblogaeth yr ysgol, siaredir 43 o ieithoedd gwahanol. Mae pedwar deg naw y cant (49%) o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae tua 38% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 38% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ffigurau hyn ymhell uwchlaw cyfartaleddau cenedlaethol.

Cyd-destun a chefnidir i'r arfer

Mae Ysgol Gynradd Sant Woolos wedi ymrwymo i sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'i fod yn cael ei werthfawrogi, yn ddiogel ac yn saff. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth o amrywiaeth a pharch at bawb, ac yn sicrhau synnwyr cryf o gyfrifoldeb ac empathi at ei gilydd.

Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth

Mae'r ysgol yn darparu pecyn hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer staff sy'n eu paratoi â'r ymwybyddiaeth a'r medrau sydd eu hangen arnynt i ddeall treftadaeth ddiwylliannol disgyblion a chefnogi eu hanghenion amrywiol. Er enghraifft, caiff staff hyfforddiant rheolaidd gan asiantaethau arbenigol, gan gynnwys seicotherapyddion plant a'r glasod a Bawso. Yn ychwanegol, mae staff wedi ennill cymwysterau i'w galluogi i gynnal rhaglenni ymyrraeth arloesol sy'n cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau 'cyfiawnder adferol', sy'n galluogi disgyblion i ddeall y modd y mae eu hymddygiadau'n effeithio ar bobl eraill, a sut gallant ddatrys achosion o anghytuno yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn cynnal prosiectau i ddatblygu medrau cyfathrebu ac iaith rhieni ochr yn ochr â'u plant hefyd.

Mae athrawon yn cynllunio llawer o gyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddysgu am berthnasoedd iach o fewn testunau ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn defnyddio modelau rôl cadarnhaol o'r gymuned leol i godi dyheadau disgyblion o'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae Cymorth i Fenywod Cymru yn cynnal gweithdai gyda disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 i ddysgu am gydraddoldeb o ran rhywedd, ac am bwysigrwydd perthnasoedd iach a pharchus. Daw arweinwyr ffydd o'r gymuned leol i'r ysgol i gynyddu dealltwriaeth plant o'r prif fathau o ffydd a gynrychiolir yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio cyllid grant yn llwyddiannus i ddarparu gwasanaethau ychwanegol i gefnogi disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys cwnsela a therapi chwarae.

Effaith ar ddarpariaeth a safonau

Mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo parch a dealltwriaeth o ffydd a hunaniaethau diwylliannol niferus y disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion ag ystod eang o ieithoedd a chefnidiroedd diwylliannol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda. Dangosant ofal ac ystyriaeth at ei gilydd ac maent yn gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae staff yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys rhieni ac arweinwyr cymunedol. O ganlyniad, mae rhieni wedi cynyddu eu hymgysylltiad â'r ysgol.

Astudiaeth achos 3: Ysgol Gynradd Bracla

Gwybodaeth am yr ysgol

Ysgol cyfrwng Saesneg a gynhelir gan awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr yw Ysgol Gynradd Bracla. Mae 314 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae tua 20% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n cyd-fynd â'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn ôl Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2016, mae gan 35% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Cyd-destun a chefnidir i'r arfer

Mae'r ysgol wedi cydweithio â phob un o'r rhanddeiliaid i ddatblygu ethos pwerus sy'n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu perthnasoedd iach. Mae'r ethos hwn yn cynorthwyo'r ysgol i ddatblygu gwerthoedd craidd cryf a gwybodaeth, medrau ac agweddau ymhlith disgyblion sy'n eu galluogi i fod yn ddysgwyr gwydn a myfyriol.

Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth

Er Medi 2015, bu gan yr ysgol Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd i wella ac ymestyn partneriaethau â rhieni. Mae rhan o'r rôl yn ymwneud â chefnogi datblygiad perthnasoedd iach gartref ac yn yr ysgol fel ei gilydd. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo grwpiau unigol a thargedig o ddisgyblion trwy sesiynau galw i mewn, grwpiau anogaeth, cynllun gwerthoedd teuluol a gweithdai rheolaidd ar ddiogelwch ar y rhynggrwyd. Mae'r ysgol yn annog rhieni i fynychu sesiynau grŵp anogaeth ochr yn ochr â'u plentyn i atgyfnerthu medrau a ddysgwyd yn yr ysgol yng nghartref y teulu.

Mae'r ysgol yn cysylltu'n effeithiol ag ystod helaeth o asiantaethau allanol i gyflwyno addysg perthnasoedd iach. Mae'r asiantaethau hyn yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff ac yn gwella'r cwricwlwm ABCh trwy gyflwyno sesiynau penodol ar bwysigrwydd dangos parch at bobl eraill. Mae'r ysgol yn gweithio gydag asiantaethau allanol i roi gwybodaeth iddynt am anghenion penodol disgyblion a nodwyd trwy bryderon rhieni neu offeryn asesu lles yr ysgol. Mae'r offeryn hwn yn darparu gwybodaeth werthfawr am agweddau pwysig ar les, fel presenoldeb, ymddygiad ac agweddau disgyblion tuag atyn nhw eu hunain, a phobl eraill.

Effaith ar ddarpariaeth a safonau

Caiff ffocws yr ysgol ar hyrwyddo iechyd a lles disgyblion effaith gref ar ddeilliannau disgyblion ac ymgysylltu â theuluoedd. Er enghraifft, mae presenoldeb wedi gwella dros y pedair blynedd ddiwethaf, ac ar gyfer 2015-2016, y gyfradd oedd 95.6%. Yn 2016, cyflawnodd holl ddisgyblion Blwyddyn 2 y deiliant disgwylidig 5, a chyflawnodd llawer ohonynt ddeiliant 6 yn elfen datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (DPChLIADd) cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae partneriaethau ag ystod helaeth o asiantaethau yn cyfrannu'n gryf at ehangu ystod y cyfleoedd dysgu a'r cymorth sydd ar gael i ddisgyblion.

Mae perthnasoedd â theuluoedd targedig wedi gwella. Ceir cyfraddau presenoldeb cynyddol mewn digwyddiadau i rieni ac ar nosweithiau ymgynghori.

Astudiaeth achos 4: Ysgol Plasmawr

Gwybodaeth am yr ysgol

Ysgol cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr a gynhelir gan awdurdod lleol Caerdydd, ar gyfer bechgyn a merched rhwng 11 ac 19 oed. Mae'r ysgol wedi ei lleoli yn y Tyllgoed yng Nghaerdydd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ochr orllewinol y ddinas ac mae ganddi ddalgyrch eang iawn. Mae 1,002 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd.

Cyd-destun a chefnidir i'r arfer

Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i gyfranogiad disgyblion, ac mae'n annog disgyblion i ddatblygu eu medrau arwain trwy drefnu ystod eang o gynadleddau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd iach a pharch at bobl eraill. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cymorth effeithiol gan gyfoedion i gyfoedion hefyd trwy hyfforddi disgyblion fel mentoriaid ar gyfer datblygu medrau academaidd a chymdeithasol.

Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth

Mae ffyrdd effeithiol i ddisgyblion ar draws yr ysgol weithio gyda'i gilydd i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol. Er enghraifft, mae gwasanaethau a chynadleddau pob oed yn canolbwyntio ar faterion pwysig fel stereoteipio rhywedd yn y cyfryngau torfol, chwaraeon, cynhyrchu teganau a byd gwaith. Mae disgyblion yn elwa ar fod yn rhan o grwpiau ymgyrchu fel 'Merched Mentrus' i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol a pherthnasoedd iach, 'Bechgyn Bonheddig' i ddatblygu medrau cymdeithasol, 'Digon' i fynd i'r afael ag agweddau homoffobig, a 'Balch' i ddathlu cymuned amlddiwylliannol yr ysgol.

Menter sy'n hyrwyddo cydraddoldeb o ran rhywedd yng nghymuned yr ysgol yw 'NewidFfem'. Mae wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth am faterion rhywedd a wynebir gan ddisgyblion ac i newid agweddau disgyblion ac athrawon tuag at ffeministiaeth a chydaddoldeb o ran rhywedd. Mae'r grŵp yn gyfrifol am drefnu cynadleddau misol lle caiff pob disgybl gyfle i drafod materion cyfoes ynglŷn â chydaddoldeb o ran rhywedd. Mae'r grŵp yn herio agweddau ar sail rhywedd traddodiadol tuag at yrfaoedd. Mae aelodau o

grŵp NewidFfem wedi rhannu eu gwaith yn llwyddiannus gyda disgyblion o ysgolion eraill trwy fod yn rhan o brosiect AGENDA.

Effaith ar ddarpariaeth a safonau

Mae disgyblion yn datblygu fel dinasyddion gweithgar a gwybodus. Mae ganddynt y medrau a'r hyder i herio anghydraddoldeb ac agweddau amharchus nad ydynt yn iach. Maent yn gweithredu fel llysgenhadon addysg perthnasoedd iach trwy weithio gyda disgyblion iau mewn ysgolion cynradd lleol i godi ymwybyddiaeth am gydraddoldeb o ran rhywedd. Mae cyfranogiad disgyblion yng nghymuned yr ysgol yn gynhwysfawr. Mae'r ffordd y mae disgyblion yn arwain grwpiau mentora cyfoes ac arloesol yn gryfder sylweddol yn yr ysgol.

Astudiaeth achos 5: Ysgol Uwchradd Tywyn, Gwynedd

Gwybodaeth am yr ysgol

Ysgol gyfun gymysg ddwyieithog 11-16 oed yng nghefn gwlad gorllewin Cymru yw Ysgol Uwchradd Tywyn, sydd wedi'i lleoli ar yr arfordir rhwng Abermaw ac Aberystwyth. Mae 270 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, ac mae 11% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 30% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Daw un pwynt naw y cant (1.9%) o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol. Yn ôl CYBLD 2016, mae 7% o ddisgyblion yn rhugl yn y Gymraeg.

Cyd-destun a chefnidir i'r arfer

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddarparu addysg gynhwysol, amrywiol i'w disgyblion, ac i annog a meithrin amgylchedd cefnogol lle mae disgyblion a staff yn deall, yn gwerthfawrogi ac yn parchu safbwyntiau, hawliau a sefyllfaoedd pobl eraill. Mae gan addysg perthnasoedd iach ran allweddol mewn codi ymwybyddiaeth disgyblion ynglŷn â sut i sefydlu, cynnal a chydabod perthnasoedd cadarnhaol, a sut i nodi arwyddion a symptomau perthnasoedd nad ydynt yn iach.

Disgrifiad o'r gweithgarwch/strategaeth

Mae'r ysgol yn cyflwyno gwybodaeth bwysig am berthnasoedd iach trwy ystod eang o weithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys gwersi ABC, pynciau ar draws y cwricwlwm, diwrnodau atal yr amserlen, cynrychiadau drama, gwasanaethau a siaradwyr allanol.

Mae'r ysgol yn cynnal gweithdai rhannu gwybodaeth a hyfforddiant ar gyfer staff a rhieni, a gyflwynir gan asiantaethau arbenigol ar faterion fel e-ddiogelwch, secstio a cham-drin domestig. Mae'r rhain yn boblogaidd a defnyddiol wrth helpu oedolion i gynorthwyo pobl ifanc. Mae'r ysgol yn darparu lefel uchel o gymorth ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed mewn sesiynau sy'n canolbwyntio'n dda ar barchu chi eich hun a phobl eraill, gwella hunanddelwedd, a'r angen i barchu'r dewisiadau a wna pobl eraill.

Mae'r ysgol yn gweithredu system gyfeillion. Caiff swyddogion hyfforddiant mentora cyfoedion ac fe gaiff pob swyddog ei baru â grwpiau tiwtor yn yr ysgol is, a neilltuir grŵp bach o ddisgyblion iddynt o fewn y dosbarthiadau hynny. Mae'r swyddog yn cyfarfod â'r rheiny y maent yn eu mentora bob wythnos ac yn gwirio eu lles. Yn aml, mae disgyblion iau yn fwy cyfforddus i godi pryderon â disgyblion hŷn na gydag aelod o staff. Wedyn, caiff

unrhyw bryder ei drosglwyddo i'r swyddog cynhwysiant neu'r cydlynnydd cynnydd disgyblion neu'r uwch dîm arweinyddiaeth, yn dibynnu ar ei natur.

Effaith ar ddarpariaeth a safonau

Mae hon yn ysgol gynhwysol, ble caiff anghenion grwpiau o ddisgyblion eu hystyried yn ofalus. Mae disgyblion a staff yn deall eu rôl mewn annog a datblygu perthnasoedd iach ac o ran helpu pobl i adnabod ac ymateb yn briodol i sefyllfaoedd ble gallent deimlo'n annifyr, yn anghyfforddus neu dan fygythiad. Ceir rhwydwaith cymorth cryf o fewn yr ysgol, sy'n rhagweithiol o ran sefydlu a chynnal perthnasoedd iach.

Astudiaeth Achos 6: Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant

Mae Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant yn ysgol wirfoddol a gynorthwyr i ddisgyblion 11-18 yn nwyrain Caerdydd. Mae 1,500 o ddisgyblion ar lyfrau'r ysgol a llawer o'r disgyblion hynny yn bobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag asiantaethau statudol a'r trydydd sector er mwyn hyrwyddo perthnasau iach a chadarnhaol. Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n benodol ar ymdrin â'r broblem o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'r plant yn galw'r gwaith hwn yn 'Think Safe'.

Mae'r ysgol yn gofyn i nifer o sefydliadau ddarparu gweithdai a gwasanaethau boreol i'r disgyblion. Er hynny, roedd diffyg strategaethau a oedd yn lleihau risg ac yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant sy'n agored i niwed. Er mwyn cynyddu'r gallu i fynd i'r afael â'r angen hwn, hyfforddwyd staff yr ysgol gan yr NSPCC fel hwyluswyr y rhaglen Protect and Respect. Dyma raglen sy'n cefnogi plant a phobl ifanc, 11 i 19 oed, sydd wedi cael eu hecsbloetio yn rhywiol neu mewn perygl o hynny. Golygai hyn y gallai mwy o ddisgyblion dderbyn yr addysg sydd ei hangen arnynt i gadw'n ddiogel a'u helpu i ddeall yr hyn y mae camfanteisio'n rhywiol ar blant a meithrin perthynas ar gyfer rhyw yn ei olygu o'i gymharu â pherthynas ddiogel, gariadus. Mae'r ysgol hefyd yn hwyluso grŵp rhwydweithio proffesiynol amlasiantaethol a gynlluniwyd i ddod â gwaith gweithwyr diogelu proffesiynol at ei gilydd mewn ffordd gydlynol a chreadigol.

Er gwaethaf yr ymdrechion hyn i ymateb i'r mater cymhleth o ganfanteisio'n rhywiol ar blant, roedd yr ysgol yn gweld nad oedd digon yn cael ei wneud i fodloni anghenion y rhai a allai, heb ymyrraeth briodol, dyfu i fod yn oedolion sy'n ymddwyn yn droseddol. Felly, mae staff yr ysgol wedi cydweithio â gweithwyr cymdeithasol i lunio a gweithredu rhaglen astudio newydd, sef 'SHIELD'. Mae'r rhaglen wyth wythnos hon yn hyrwyddo:

- **Diogelwch** - y rhinwedd o gael eich diogelu a bod yn rhydd o unrhyw risg.
- **Gonestrwydd** - y rhinwedd o fod yn eirwir ac yn anrhydeddus.
- **Uniondeb** - y rhinwedd o fod yn rhywun teg y gellir ymddiried ynddo.
- **Empathi** - y rhinwedd o allu deall a rhannu teimladau pobl eraill.
- **Cariad** - y rhinwedd o fod yn ofalgar ac yn annwyl.
- **Urddas** - y rhinwedd o ymddwyn yn ddifrifol â hunanreolaeth

Mae cadw'r teimlad o drafodaeth agored, onest am y 'byd go iawn' yn allweddol i lwyddiant y sesiynau. Mae'r themâu yn cynnwys pŵer a rheolaeth, cydsyniad, pornograffeg, disgwyliadau a phwysau gan gyfoedion, diwylliant poblogaidd a stereoteipiau niweidiol. Mae defnyddio astudiaethau achos, sefyllfaoedd, dadleuon a thrafodaeth yn caniatáu i'r rhai sy'n

cymryd rhan fynd i'r afael â'r agweddau ar ryw a pherthnasau sy'n fwy anodd, a hynny mewn lleoliad diogel. Os yw hynny o fewn y cyd-destun, caniateir rhegi ac iaith rywiol - wedi'r cyfan, dyma'r iaith y mae pobl ifanc yn ei defnyddio.

Mae SHIELD, sydd bellach yn ei drydedd flwyddyn, yn boblogaidd iawn ymysg y disgyblion. Mae pobl ifanc yn dweud eu bod wedi gallu gofyn cwestiynau na fyddent fel arfer yn gallu eu gofyn. Maent yn disgrifio'r rhaglen fel sefyllfa "real" a'r "gwirionedd" yn wahanol i "Addysg Personol a Chymdeithasol sy'n dweud wrthy ch beth mae'r gyfraith yn ei ddweud yn unig". Mae myfyrwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy hyderus i ddelio â "sefyllfaoedd go iawn" ac y gallant fod yn nhw'u hunain mewn perthynas, yn hytrach na'r hyn y mae pobl eraill yn disgwyl iddynt fod".

Astudiaeth Achos 7 – Cynllun Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF

Gwybodaeth am Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau Unicef UK

Mae Unicef yn gweithio gydag ysgolion yn y DU i greu lleoedd diogel a chyffrous i ddysgu, lle mae plant yn cael eu parchu, eu talentau'n cael eu meithrin, a lle maent yn gallu ffynnu. Mae'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yn sicrhau bod y gwerthoedd hyn yn rhan annatod o fywyd bob dydd yn yr ysgol, gan roi'r cyfle gorau i blant fyw bywydau hapus ac iach a bod yn ddinasyddion cyfrifol, gweithgar.

Gan ddefnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel canllaw, rydym yn gweithio gyda mwy o ysgolion yn y DU na bron unrhyw sefydliad arall. Mae 1.5 miliwn o blant yn y DU yn mynychu Ysgol sy'n Parchu Hawliau ac mae dros 4,000 o ysgolion ar hyd a lled y wlad yn gweithio tuag at y wobr.

Gwybodaeth am yr ysgol

Lleolir Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pen y Fai ym mhentref Pen y Fai ar gyrion Pen-y-bont ar Ogwr, ac fe'i cynhelir gan Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae 230 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd, gan gynnwys plant meithrin rhan-amser. Mae tua 3.8% o ddisgyblion yr ysgol yn derbyn pryddau ysgol am ddim, sy'n is o lawer na'r cyfartaledd lleol a chyfartaledd Cymru gyfan. Mae'r ysgol yn ystyried bod gan tua 4.8% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol ar lefel gweithredu gan yr ysgol a bod gan 7.2% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol ar lefel gweithredu gan yr ysgol a mwy. Nid oes gan unrhyw ddisgyblion ddatganiad ffurfiol o anghenion addysgol arbennig. Mae tua 6% o ddisgyblion yn dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig ac nid oes unrhyw ddisgybl yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith gartref.

Cyd-destun a chefnidir yr ymarfer

Ymgysylltodd yr ysgol â Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau (RRSA) Unicef ym mis Medi 2016 gan ymrwymo i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ym mywyd yr ysgol yn llawn. Enillodd yr ysgol wobr Arian: Ymwybyddiaeth o hawliau ym mis Gorffennaf 2017 a gwobr Aur: statws Parchu Hawliau ym mis Gorffennaf 2018. Mae RRSA yn gweithio gyda staff ysgolion bob cam o'r ffordd ar eu taith tuag at fod yn ysgol sy'n Parchu Hawliau, gan ddarparu hyfforddiant, cynlluniau gwersi a chanllawiau. Pan fydd yr ysgol yn barod, mae un o'n gweithwyr proffesiynol hawliau plant yn cwblhau asesiad. Fel rhan o'r broses achredu mae'r ysgol yn cwblhau ffurflen hunanwerthuso ac effaith, ac mae disgyblion a staff yn cwblhau holiaduron cyn yr ymweliad achredu. Mae'r ysgol yn cydnabod

bod RRS wedi helpu i ddatblygu perthynas rhwng pobl sy'n dangos parch trwy sefydlu iaith gyffredin ledled yr ysgol sy'n seiliedig ar hawliau plant.

Disgrifiad o'r gweithgaredd/strategaeth a'r effaith ar ddarpariaeth

Mae rheolau ystafell ddosbarth a rheolau ysgol wedi'u disodli â siarteri sydd i'w gweld ym mhob ystafell ddosbarth. Ddechrau bob blwyddyn ysgol, mae disgyblion yn gweithio gyda'u hathrawon dosbarth i benderfynu ar y cyd pa erthyglau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn y maent yn dymuno eu cynnwys yn eu siarteri, a sut y byddant yn gweithredu ac yn ymddwyn er mwyn sicrhau bod hawliau pawb yn cael eu parchu. Mae staff a disgyblion yn cytuno bod siarteri wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at fywyd yr ysgol a bod pobl yn cyfeirio atynt yn aml: "roedd hen reolau'r ysgol ar gyfer athrawon, a doedd gennym ddim llais" ac "mae siarteri'n cynnwys hawliau pawb. Rydym yn cytuno i barchu'r hawliau ac yn penderfynu pa hawliau i'w cynnwys". Mae dehongliadau creadigol o'r siarteri wedi'u llunio "er mwyn sicrhau nad rhywbeth ar y wal yn unig ydyn nhw". Mae disgyblion wedi gwneud 'bocsys siarad' er mwyn annog cyd-ddisgyblion i drafod hawliau, gan gynnwys yr holl hawliau sydd wedi'u dewis ar gyfer eu siarter a hawliau ychwanegol sydd wedi'u dewis gan bob disgybl. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth wirioneddol nad oes unrhyw amod ar hawliau, a gallant egluro sut mae eu hymddygiad a'u gweithredoedd yn effeithio ar hawliau pobl eraill. Mae hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at amgylchedd dysgu cadarnhaol.

Mae perthynas ag eraill sy'n dangos parch yn cael eu meithrin, ac mae perthynas seiliedig ar barch i'r naill a'r llall yn bodoli rhwng staff, disgyblion a staff, a rhwng disgyblion. Mae amgylchedd Pen y Fai yn ddigynnwrf a seiliedig ar barch, ac mae plant yn trin ei gilydd mewn ffordd garedig a chefnogol. Yn ôl yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth: "Mae'n bwysig cofio mai un tîm ydym ni. Mae gennym weledigaeth gyffredin sy'n seiliedig ar y Confensiwn, ac mae disgyblion a staff yn gweithio gyda'i gilydd i rannu syniadau a sicrhau bod dysgu yn broses llawn hwyl". Mae yna agwedd gyson a chyffredin at fodelu camau gweithredu sy'n parchu hawliau, ac mae pob aelod o staff yn cefnogi hyn yn gyson. Nodwyd bod pob aelod o staff yn cefnogi'r broses a bod "RRS wedi arwain at gysondeb o ran sut rydym yn siarad, yn gweithredu ac yn ymgysylltu â disgyblion".

Defnyddir sawl dull o gynorthwyo disgyblion i ddatrys gwrthdaro mewn ffordd sy'n parchu hawliau. Mae disgyblion yn cael eu hannog i ddod o hyd i atebion sy'n hyrwyddo tegwch a democratiaeth, ac roedd plant yn cytuno eu bod yn cael eu trin ag urddas. "Mae plant yn dangos mwy o barch at ei gilydd oherwydd RRS ac rydym yn gweithio gyda nhw i ddatrys problemau a pharchu ein gilydd". Mae disgyblion yn defnyddio erthyglau i'w helpu i fyfyrion ar ddigwyddiad penodol, ac mae gan yr ysgol ardal 'cwtsh' ddynodedig sy'n cael ei defnyddio fel man tawelu os oes angen.

Astudiaeth Achos 8: Ymddiriedolaeth Terrence Higgins

Mae Lleisiau Cadarnhaol yn brosiect cymunedol a gynhelir gan Ymddiriedolaeth Terrence Higgins sy'n rhoi cyfle i bobl sy'n byw gyda HIV rannu eu hanesion personol er mwyn codi ymwybyddiaeth o HIV a hyrwyddo iechyd rhywiol da i bawb.

Mae ein siaradwyr wedi'u hyfforddi i wneud cyflwyniadau ar iechyd rhywiol ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol mewn lleoliadau gwahanol, gan gynnwys:

- ysgolion a cholegau
- clybiau ieuenctid

- y GIG a darparwyr gofal iechyd eraill
- busnesau
- grwpiau ffydd
- elusennau a sefydliadau cymunedol.

Nod sesiynau mewn ysgolion yw grymuso pobl ifanc i wneud dewisiadau iach am eu hiechyd rhywiol eu hunain, gan gynnwys negeseuon am atal HIV a rhyw mwy diogel, ac mae cyfle i rannu profiadau personol o fyw gyda HIV. Hefyd, rydym yn darparu adnoddau am ddim ar gais, fel condomau, taflenni, gweithgareddau ystafell ddosbarth a thafleddi ffeithiau.

Caiff sesiynau eu teilwra yn unol â natur ac oedran y gynulleidfa, a cheir trafodaeth ag ysgolion ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn briodol ac yn ddiddorol. Mae'r prosiect yn gweithredu yn Llundain, Glasgow a Brighton, lle mae wedi dod yn rhan bwysig o'r ddarpariaeth Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn y rhan fwyaf o ysgolion, gyda sesiynau'n cael eu cynnal bob blwyddyn.

Mae gwirfoddolwr ac o leiaf un aelod o staff Ymddiriedolaeth Terrence Higgins yn cynnal y sesiynau, sy'n para awr fel arfer. Mae'r sesiynau'n dechrau gyda chyflwyniad Power Point, cyflwyniad i waith Ymddiriedolaeth Terrence Higgins, a'r ystadegau a'r wybodaeth ddiweddaraf am HIV. Wedyn, ceir hanesion personol pobl sy'n byw gyda HIV, sesiynau holi ac ateb a gwerthusiad.

'Mae rhywun yn gweld ymateb uniongyrchol pobl ifanc yn yr ystafell yn syth a allai fod yn LGBT+ eu hunain. Pan rwy'n clywed cwestiynau fel 'a allaf gael HIV trwy gusanu?' mae'n atgyfnerthu pwysigrwydd ein gwaith. Mae myfyrwyr yn gofyn llawer o gwestiynau manwl am drosglwyddo HIV trwy ryw drwy'r geg a chusanu – mae'n gyfle gwych a phwysig iawn i allu egluro rhai o'r camsyniadau ynglŷn â HIV a sut mae'r haint yn cael ei throsglwyddo.' – John, siaradwr gwirfoddol Lleisiau Cadarnhaol.

'Roedd Lleisiau Cadarnhaol yn gweddu'n berffaith i'n rhaglen ABGI¹. Roedd y siaradwr yn hynod ddiddorol a charismataidd, ac roedd ei neges i'n disgyblion yn bwerus iawn.' Jake Jones, athro, Ysgol Cumberland.

'Roedd y sgwrs yn dangos yn glir bod unrhyw un yn gallu cael ei heintio â HIV, nid dynion hoyw yn unig. Hefyd, roedd yn briodol iawn bod y siaradwyr benywaidd yn gallu rhannu eu profiadau mewn ffordd mor huawdl â chynulleidfa o ferched.' – Athrawes, Ysgol Gatholig La Sainte Union, Highgate.

'Y gwasanaeth gorau rydym wedi'i gael erioed!' – Myfyrwr chweched dosbarth, Ysgol Acland Burghley, gogledd Llundain

Astudiaeth Achos 9 - gan yr Athro Emma Renold – Cydgynhyrchu'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd: archwiliad creadigol

Yn dilyn gweithdy dau ddiwrnod i drafod a dysgu am y gwaith o ddatblygu'r Cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd, fe hwylusodd yr arweinydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn un ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf gyfres o

¹ Mae Addysg Personol Gymdeithasol ac Iechyd (ABGI) yn un o ofynion y cwricwlwm yn Lloegr yn unig. Nid yw'n ofynnol ar gyfer y cwricwlwm mewn ysgolion yng Nghymru.

weithgareddau creadigol i fapio ymarfer presennol a dechrau cydgynhyrchu cwricwlwm mwy cynhwysol a holistaidd gyda staff a myfyrwyr.

Archwiliad creadigol gyda staff:

Cynhaliwyd sesiwn Hyfforddiant Mewn Swydd ar gyfer pob aelod o staff addysgu a chymorth er mwyn archwilio'r egwyddorion craidd arfaethedig ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd yng Nghymru; trosolwg o'r angen am newid, a sut mae wyth thema canllawiau UNESCO 2018 yn gallu cefnogi nodau ac amcanion dysgu sy'n briodol o safbwynt datblygiadol. Cafwyd cân a darn o fideo comedi ar ddechrau'r sesiwn gan yr arweinydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a gofynnwyd i staff rannu eu profiadau eu hunain o addysg rhyw gan addasu'r dasg 'What Jars You?' o'r adnodd AGENDA. Mewn grwpiau bach, aeth y staff ati i fapio eu hymarfer presennol yn erbyn themâu UNESCO. I gloi, cwblhawyd y dasg gorffen/dechrau, gyda'r staff yn ysgrifennu ar blatiau coch beth roedden nhw eisiau rhoi'r gorau i'w wneud yn yr ysgol, ac yn ysgrifennu ar blatiau gwyrdd beth roedden nhw eisiau ei newid neu ddechrau ei wneud mewn ymateb i sicrhau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gynhwysol, holistaidd sy'n seiliedig ar hawliau ac yn grymuso pawb.

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan staff ynglŷn â chynnwys a chwblhau'r archwiliad creadigol. Roedd llawer o staff yn sylweddoli bod angen iddynt symud ymlaen a throi cefn ar y cyfarwydd a'r cyfforddus. Codwyd rhai pryderon a chwestiynau ynglŷn â'r ystod ehangach o broblemau sy'n wynebu plant eisoes nad ydynt yn cael sylw yn yr ysgol. Mynegwyd rhai pryderon ynglŷn ag ymateb rhieni, a phryderon ynglŷn â pha mor addas i oedran plant yw rhai materion. Fodd bynnag, roedd canllawiau UNESCO a thystiolaeth ymchwil o'r adroddiad ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn hanfodol wrth ymateb i'r pryderon hyn. Roedd yr ymarferiad mapio yn ddefnyddiol o safbwynt amlygu bylchau mewn ymarfer a hyfforddiant ar faterion craidd, a chydabod ein bod eisoes yn darparu profiadau dysgu mewn llawer o'r themâu.

Archwiliad creadigol gyda myfyrwyr:

Er mwyn darparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb lwyddiannus, mae angen gwrando ar blant a phobl ifanc a'u cynnwys yn y broses o gynllunio a gwerthuso unrhyw raglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gynhwysfawr.

Ar ôl chwarae gemau torri'r garw, dewisodd yr arweinydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb Gysyniad Allweddol 1 (Perthnasoedd) UNESCO. Gan ddefnyddio delweddau, darnau ffilm a hysbysebion teledu, gofynnodd i ddisgyblion Blwyddyn 6 gymryd rhan mewn archwiliad creadigol tebyg. Hefyd, aethant ati i greu 'stryd amrywiaeth' ar rolyn papur gan ddangos amrywiadau teulu/perthynas posibl. Gofynnwyd i ddisgyblion ddiffinio pynciau allweddol yn eu geiriau eu hunain, gan lunio map syniadau o wersi/gweithgareddau sy'n cwmpasu'r themâu (e.e. amrywiaeth teuluol, cariad, perthnasoedd, cyfeillgarwch, goddefgarwch, cynhwysiant, pobl y gellir ymddiried ynddynt a'u parchu ac ati). Wedyn, aethant am 'dro dysgu' o gwmpas yr ysgol gan dynnu lluniau o arddangosfeydd/tystiolaeth o unrhyw un o themâu'r pwnc. Y cam nesaf yw ehangu a rhannu archwiliadau creadigol staff a myfyrwyr, eu rhannu â rhieni a llywodraethwyr, a nodi bylchau ac anghenion y cwricwlwm wrth i ni ddechrau cydgynhyrchu rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n berthnasol, yn ddiddorol ac yn diwallu anghenion pob plentyn yn yr ysgol.

